# Ffydd yng Nghymru

## *Yn Cyfrif i'n Cymunedau*

GWEINI
Serving the Christian Voluntary Sector in Wales

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action





**Ariannwyd gan:**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

community development foundation

Communities and Local Government

fcbf
faith communities capacity building fund

Lloyds TSB | Foundation for England and Wales

# Ffydd yng Nghymru
## *Yn Cyfrif i'n Cymunedau*

Cafodd yr adroddiad hwn ei baratoi gan Gweini: Cyngor y Sector Gwirfoddol Cristnogol yng Nghymru, yn gweithio mewn ysbryd partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Cenhadaeth Gweini yw gweini'r sector gwirfoddol Cristnogol yng Nghymru trwy gynrychioli, rhwydweithio, a hysbysu ar lefel genedlaethol a lleol (gweler www.gweini.org.uk). Roedd Gweini yn gyfrifol am adeiladu'r rhestr o gymunedau ffydd, am gynnwys yr holiadur (ar y cyd â CGGC) ac am ddadansoddi'r data.

Mae Gweini yn derbyn cefnogaeth y Cyd Sefydliadau canlynol: Cynghrair Efengylaidd Cymru, CARE, Eglwys Cornerstone Abertawe, Tearfund, Teml y Ddinas Caerdydd, Cymdeithas Gristnogol Danescourt Caerdydd, Prospects, Eglwys St Michaels Aberystwyth, a Chanolfan Fywyd Eglwys Bethlehem Cefn Cribwr.

Nod CGGC yw gweithredu fel "llais y sector gwirfoddol yng Nghymru", gyda'r genhadaeth o "gynrychioli ac ymgyrchu ar gyfer mudiadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau" (gweler www.wcva.org.uk). Roedd CGGC yn gyfrifol am ddosbarthu holiadur yr arolwg ac am gasglu'r data.

Cafodd y cyllid ar gyfer yr astudiaeth hon ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (yn rhannol trwy gronfa Syniadau Newydd yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ac yn rhannol trwy grant oddi wrth yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol), gan Sefydliad Banc Lloyds TSB a chan Gronfa Meithrin Gallu Cymunedau Ffydd y Swyddfa Gartref, wedi'i gweinyddu gan y Sefydliad Datblygu Cymunedol.

Cafodd yr adroddiad hwn ei ysgrifennu gan John M. Evans, Cyfarwyddwr Ymchwil Gweini, a oedd yn gyfrifol hefyd am ddadansoddi'r arolwg ac am gyswllt â'r arweinwyr ffydd. Arweiniodd Bryan Collis y tîm yn CGGC.

Mae copiau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Gweini trwy'r hafan www.gweini.org.uk yn unig

Cysylltiadau ar gyfer y Cyfryngau:
Gweini
02920 229822 / 07730 922451

Am ymholiadau technegol ynghylch yr adroddiad a'r data ynddo:
John M. Evans
johnmartinevans@gweini.org.uk / 07973 287406

Argraffwyd gan:
COPYHOUSEWALES
copyhousewales@googlemail.com/ 01443 407759

Dyluniwyd y clawr gan Dave Potter, www.gpdesign.org.uk

© Cynghrair Efengylaidd, 2008
Cedwir pob hawl. Ceir atgynhyrchu'r adroddiad hwn trwy lungopïo neu ddulliau electronig at ddibenion anfasnachol. Fel arall, ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r adroddiad hwn, na'i addasu, na'i chadw mewn cyfundrefn adferadwy neu drosglwyddo trwy unrhyw ddulliau, electronig, mecanyddol, llungopïo, nac fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Gynghrair Efengylaidd.

Gweini: Cynghrair Efengylaidd Cymru yn gweithio ag asiantaethau Cristnogol eraill yn y genedl. Mae'r Gynghrair Efengylaidd yn gwmni cyfyngedig trwy warant wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr Rhif 123448
Rhif Elusen Gofrestredig: 212325


# Rhagair

Mae'n bleser gennyf groesawu'r ymchwil arloesol hon ar gyfraniad cymunedau ffydd at gymdeithas wâr Cymru.

Ni fydd casgliadau'r adroddiad hwn yn synnu'r bobl hynny sydd wedi cydnabod ers amser maith, yn yr un modd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyfraniad mawr yr holl gymunedau ffydd at fywyd yng Nghymru. Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r cyfraniad hwnnw'n fawr iawn ac mae'n bleser gweithio mor agos â'r holl gymunedau ffydd yng Nghymru trwy'r Fforwm Cymunedau Ffydd a gafodd ei sefydlu gennym yn sgil 9/11.

Serch hynny, bydd yr astudiaeth hon yn synnu llawer o fewn y "sector ffydd" ac yn ehangach ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yn sgil maint ac amrywiaeth cyfraniad y cymunedau ffydd sydd wedi dod i'r amlwg. Mae cymunedau ffydd wedi chwarae rôl allweddol yn hanes Cymru, a hyd yn oed heddiw maen nhw'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau hanfodol sy'n cyd-fynd â gwaith y llywodraeth ac yn ategu ato.

Rydym yn disgwyl i'r ymchwil hon fod o bwys mawr wrth feithrin gwell ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o grefyddau a diwylliannau yng Nghymru. Ar ben hynny, bydd y gwaith yn darparu sail am gydweithredu pellach rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chymunedau ffydd wrth gyflwyno ein nod cyffredin o "Gwell Cymru" i bawb.



Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC
Prif Weinidog Cymru

# Cydnabyddiaethau

Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig yn rhannol ar arolygon a wnaethpwyd ar gyfer Llundain gan Swyddog Gweithredol Grŵp Eglwysi Llundain dros Weithredu Cymdeithasol, Mrs Elisabeth Simon; a chan Awdurdod Datblygu Rhanbarthol y Gogledd Orllewin, o dan ysbrydoliaeth Monsignor John Devine, Swyddog yr Eglwysi i'r Gogledd Orllewin. Cydnabyddir eu cymorth yn ddiolchgar iawn.

Cafodd y gwaith ei wneud mewn partneriaeth rhwng Gweini a CGGC.  Roedd tîm CGGC, dan arweinyddiaeth Bryan Collis, yn cynnwys Jim Etty a Nigel Evans.  Ar ran Gweini, chwaraewyd y brif rôl gan John M. Evans, a fu'n gyfrifol am sicrhau'r cyllid i'r prosiect, cael cymorth arweinwyr ffydd ac enwadau, ac am baratoi'r adroddiad hwn.

Cafodd y gwaith arweiniad a llawer o gymorth gan y Grŵp Ymgynghorol, a restrir isod, a roddodd yn hael iawn o'u hamser a'u profiad gwerthfawr iawn.  Cadeiriodd Anthony Ford y Bwrdd Ymgynghorol a darparodd ysbrydoliaeth ar gyfer y prosiect.  Anthony a John Richards ddeliodd â'r materion gweinyddol.

Hefyd dylid cydnabod y cymorth caredig a gafwyd gan gynrychiolwyr y noddwyr: Steve Moss, Christopher Bristow, Mike Harmer a Peter Owen o Lywodraeth Cynulliad Cymru; Mike Lewis o Sefydliad Lloyds TSB; a Cetta Mainwaring o'r Sefydliad Datblygu Cymunedol.  Ymhlith yr eraill y dylid sôn amdanynt yw Bwrdd Gweini, dan gadeiryddiaeth Elfed Godding; Julian Richards, Llywydd Gweini; Aled Edwards, Prif Weithredwr, Cytûn; Robert Lewis, Croeso Cymru; John Winton, Rhwydwaith Twristiaeth Eglwysi Cymru; Robin Morrison, yr Eglwys yng Nghymru; ac arweinwyr ffydd ac enwadau ar draws Cymru. Daeth y syniad gwreiddiol am yr astudiaeth oddi wrth y Dr. Dan Boucher, a oedd yn allweddol wrth sefydlu Gweini ym 1999.

Yn olaf, ni fyddai'r arolwg wedi bod yn bosibl heb gyfranogiad a chefnogaeth frwd Cyngor Rhyng-Ffydd Cymru, a'r sawl cymuned ffydd ar draws Cymru a gymerodd yr amser i ymateb i'r holiadur gweddol drwm.

## Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol

Anthony Ford, Prif Weithredwr, Gweini (Cadeirydd)
Bryan Collis, Uwch Swyddog Ymchwil, CGGC
Andrew Connell, cyn Swyddog Polisi, Cytûn
John M. Evans, Cyfarwyddwr Ymchwil, Gweini
Y Dr. John Gallacher, Darllenydd, Adran Epidemioleg, Ystadegau ac Iechyd Cyhoeddus, Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Andrew Henley, Pennaeth Ysgol Busnes ac Economeg, Prifysgol Abertawe
Y Dr Michael Shepherd, Uwch Gymrawd Ymchwil, Athrofa Cymdeithas, Iechyd a Moeseg Caerdydd
Jim Stewart, Cyfarwyddwr Polisi, Gweini
Ed Swires-Hennessy, Pennaeth Datblygiad a Chefnogaeth Arolygon, Uned Ddata Llywodraeth Leol, Cymru

# Cynnwys

Page

Crynodeb gweithredol ....... 7

Rhagymadrodd ....... 12

1. Cymunedau ffydd yng Nghymru ....... 14
2. Niferoedd sy'n mynychu cymunedau ffydd ....... 20
3. Niferoedd y gwirfoddolwyr wedi'u trefnu gan gymunedau ffydd ....... 24
4. Oriau a weithiwyd gan wirfoddolwyr ar ran y gymuned ehangach ....... 26
5. Staff cyflogedig sy'n trefnu gwasanethau i'r gymuned ehangach ....... 28
6. Gwasanaethau a ddarperir gan gymunedau ffydd ....... 30
7. Cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon ....... 32
8. Ystafelloedd ac adeiladau ar gael i'r gymuned ....... 33
9. Yn Cefnogi'r Dreftadaeth Genedlaethol ....... 34
10. Twristiaeth a gynhyrchwyd gan gymunedau ffydd ....... 37
11. Cefnogaeth i'r iaith Gymraeg ....... 38
12. Amcangyfrifon economaidd o gyfraniad cymunedau ffydd ....... 39
13. Cysylltiad â'r llywodraeth ....... 40
14. Amcangyfrifon rhanbarthol ....... 42
15. Diweddglo ....... 44

Ôl-nodiadau ....... 45

Atodiad 1. Y crefyddau, ac enwadau a grwpiau cyswllt Cristnogol, dan sylw yn yr astudiaeth hon ....... 46

Atodiad 2. Yr holiadur ....... 49

Atodiad 3. Dosbarthiad yr holiadur a'r ymateb iddo ....... 59

Atodiad 4. Gwirio data ac amcangyfrif gwerthoedd coll ....... 61

Atodiad 5. Grosio i fyny ....... 64

Atodiad 6. Dadansoddiad economaidd ....... 65

Atodiad 7. Diogelu a chyrchu data ....... 68


646
644






DEWI·BREFI




OF HOPE




CHURCH ARMY

# Crynodeb gweithredol

## Rhagymadrodd

Hyd yn hyn, roedd diffyg tystiolaeth ystadegol i Gymru o'r rôl y mae cymunedau ffydd yn ei chwarae yn eu cymunedau ehangach.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth newydd ar y gwasanaethau wedi'u darparu gan gymunedau ffydd i'r gymuned ehangach, niferoedd y gwirfoddolwyr maen nhw'n eu trefnu, a'r ystafelloedd a'r neuaddau maen nhw'n eu darparu. Dyma rai o'r elfennau o gyfraniad cyfan gwbl cymunedau ffydd i gymdeithas Gymreig, ond eto mae'r dadansoddiad yn dangos bod eu gwerth economaidd yn un sylweddol.
Y cymunedau ffydd dan sylw yw'r rheiny sy'n cael eu cynrychioli ar Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru: Bahá'í, Bwdhaidd, Cristnogol, Hindŵaidd, Mwslimaidd, Iddewig a Sikhaidd.

Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar holiadur a gafodd ei anfon at bob cymuned ffydd wedi'u hadnabod trwy ymchwiliad manwl gyda chyfraniad arweinwyr yr holl grefyddau hyn a'r holl enwadau Cristnogol mawr. Roedd yr ymateb crynswth yn arbennig o uchel ar gyfer arolwg o'r fath hon, ychydig dros 49%. Cafodd tua thraean o'r atebion eu darparu yn yr iaith Gymraeg, ffigwr hynod o uchel ar gyfer arolwg Cymru gyfan.

## Cymunedau ffydd yng Nghymru

Ar sail yr ymchwil hon, mae'n cael ei amcangyfrif bod gan Gymru ddwywaith cymaint o gynulleidfaoedd addoli y pen o'r boblogaeth â gweddill Prydain Fawr. Ceir dros 4,400; sef un i bob 670 o bobl yng Nghymru.

Tra bod nifer cynulleidfaoedd y crefyddau eraill wedi bod yn tyfu, mae'r rhan helaethaf o gynulleidfaoedd, dros 98%, yn eglwysi Cristnogol. Mae cymunedau ffydd wedi'u gwasgaru ar draws Cymru, ond maen nhw'n dueddol o gael eu crynhoi mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uchel, gan gynnwys sawl ardal drefol sydd bellach yn dioddef o lefelau uchel o amddifadedd. Mae tua hanner cymunedau ffydd Cymru wedi bod yn bresennol yn eu hardaloedd lleol ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac i rai ohonyn nhw am lawer mwy o amser, ond mae nifer ohonyn nhw wedi cael eu sefydlu yn y ganrif bresennol.

Bob wythnos, mae'n cael ei amcangyfrif bod 7.2% o boblogaeth Cymru'n mynychu gwasanaeth crefyddol (6.7% i'r eglwysi). Serch hynny, gofynnodd yr holiadur hefyd i bob cymuned ffydd am y niferoedd uchaf a fynychodd wasanaeth sengl dros y flwyddyn. Cyfanswm y ffigyrau presenoldeb hyn yw dros 15% o'r boblogaeth. Mae'r ffigwr hwn hyd yn oed yn debygol o fod yn ddanamcangyfrif sylweddol o gyfran poblogaeth Cymru sy'n bresennol mewn gwasanaeth crefyddol dros flwyddyn.

## Yn gwasanaethu'r gymuned ehangach mewn amrywiaeth eang o ffyrdd

Mae cymunedau ffydd yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau i'w cymunedau lleol – gan gynnwys llawer nad yw llywodraethau'n gallu darparu eu hunain. Allan o'r 35 maes sy'n cael eu rhestru yn yr holiadur, y pump a nodwyd amlaf oedd ymweld ag ysbytai, gweithio gyda phlant dan 14 oed, gweithgareddau cymdeithasol gan gynnwys clybiau cinio a bariau coffi, paratoi ar gyfer priodas, a chefnogaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth. Mae'r rhain i gyd yn cwympo o fewn y categorïau traddodiadol o

gefnogaeth gymdeithasol tymor hirach ar gyfer unigolion a theuluoedd. Serch hynny, mae sawl cymuned ffydd yn gweithio eisoes mewn meysydd eraill o angen a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys hyfforddiant cyflogaeth, ymwybyddiaeth o alcohol a chyffuriau, a materion ariannol personol. Mae llawer mwy yn gobeithio gweithio yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Yn gyfan gwbl, adroddodd dros ddau draean o gymunedau ffydd o leiaf un ffurf o wasanaeth i'r gymuned ehangach, ac roedd y rheiny a wnaeth felly yn cymryd rhan ar gyfartaledd mewn pum maes gwahanol o weithgarwch yr un.

Hefyd mae cymunedau ffydd yn chwarae rhan fawr mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon lleol – gan gynnwys cerddoriaeth (mae canu corawl yn dod ar y brig), pêl-droed (tua 280 yn cymryd rhan) a dosbarthiadau ymarfer a ffitrwydd (dros 150).

## Darparu gwirfoddolwyr

Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu trefnu gan gymunedau ffydd i wasanaethu eu cymunedau lleol yn cael eu cyflwyno gan 42,000 o wirfoddolwyr. Mae'r gyfran sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn amrywio yn ôl ffydd ac enwad Cristnogol, ond mae'n codi i dros 60% mewn rhai achosion. Mae cyfanswm yr oriau y mae'r gwirfoddolwyr hyn yn rhoi i mewn yn cael ei amcangyfrif ychydig o dan 80,000 o oriau'r wythnos, sy'n gyfwerth ag ychydig o dan 2,000 o weithwyr llawn amser.

Ar ben hynny, mae'n cael ei amcangyfrif bod cymunedau ffydd yn cyflogi ychydig o dan 1,400 staff i drefnu eu gweithgareddau'n gwasanaethu'r gymuned ehangach. Maen nhw'n rhoi 23,000 o oriau i mewn yr wythnos at y diben hwn, yn gyfwerth â 570 o weithwyr llawn amser eraill.

## Yn darparu ystafelloedd ac adeiladau at ddefnydd y gymuned

Mae'n cael ei amcangyfrif bod dros 600 o gymunedau ffydd yn gweithredu canolfannau cymunedol at bwrpas. Ar ben hynny, mae 1,800 o gymunedau ffydd yn rhentu ystafelloedd i grwpiau allanol, yn aml ar ffi sylfaenol. Mae mil a chant yn darparu o leiaf rhyw lety am ddim, sy'n dod i dros 4,000 o oriau ystafell yr wythnos. Mae hyn ar ben y 31,000 o oriau ystafell yr wythnos sy'n cael eu darparu fel rhan o'r gwasanaethau a chyfranogiad cymunedol y ceir sôn amdanynt uchod.

## Yn cryfhau'r Dreftadaeth Genedlaethol

Mae'n cael ei amcangyfrif bod cymunedau ffydd yn cynnal dros 1,600 o adeiladau rhestredig y mae 400 ohonyn nhw'n Radd II* a 200 yn Radd I. Maen nhw'n croesawu 2.5 miliwn o dwristiaid bob blwyddyn, sy'n dod â buddiannau economaidd sylweddol i'w hardaloedd lleol. Credir iddyn nhw i gyd gynnig mynediad am ddim.

## Yn cefnogi'r iaith Gymraeg

Mae astudiaethau yn y gorffennol wedi awgrymu bod gwasanaethau mewn eglwysi'n cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg mewn tuag un eglwys o bob tair yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod llawer o eglwysi hefyd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y gymuned ehangach. Mae'n cael ei amcangyfrif bod tua 130 o eglwysi'n cymryd rhan mewn rhedeg dosbarthiadau iaith Gymraeg, tra bod eraill yn cynnig gweithgareddau ar gyfer pobl Gymraeg eu hiaith, mae 340 yn cymryd rhan mewn Eisteddfodau a 420 mewn digwyddiadau iaith Gymraeg eraill. Cyfanswm yr eglwysi sy'n cymryd rhan mewn unrhyw

un o'r pedwar maes hwn yw tua 800.

## Yn cyflwyno buddiannau economaidd sylweddol i Gymru

Cafodd technegau economaidd safonol, wedi'u cymeradwyo gan CGGC, eu defnyddio i amcangyfrif gwerth economaidd cyfan y pum elfen y ceir sôn amdanyn nhw isod:

- Gwaith gwirfoddol wedi'i drefnu gan gymunedau ffydd
- Staff cyflogedig yn trefnu gwasanaethau i'r gymuned ehangach
- Yr ystafelloedd ac adeiladau sydd ar gael i'r cyhoedd
- Twristiaeth wedi'i chynhyrchu gan gymunedau ffydd
- Gwerth mynediad am ddim i adeiladau cymunedau ffydd

Roedd yr amcangyfrif tua £102M. Daeth y cyfraniad unigol mwyaf o oriau gwirfoddolwyr wedi'u trefnu gan gymunedau ffydd ar ran y gymuned ehangach.

Mae'r lefel uchel o ymateb hefyd wedi caniatáu am wneud amcangyfrifon bras ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru.

## Cysylltiad â'r llywodraeth

Mae cymunedau ffydd yn cyllido eu hunain gan fwyaf, a dim ond 27% a nododd iddyn nhw dderbyn unrhyw gyllid oddi wrth ffynonellau cyhoeddus.

Serch hynny, mae llawer yn cymryd rhan mewn cydweithio â'r llywodraeth. Yn gyfan gwbl, mae'n cael ei amcangyfrif bod tua 500 o gymunedau ffydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau adfywio'r Llywodraeth neu'n cymryd rhan weithredol yn eu Strategaeth Gymunedol leol, neu'r ddau.

## Diweddglo


Oherwydd bodlonrwydd cymaint o gymunedau ffydd yng Nghymru i ymateb i'r holiadur gweddol o drwm, mae hyn wedi bod yn astudiaeth lwyddiannus, sy'n dod i amcangyfrif ceidwadol o tua £102M ar gyfer cyfraniad cymunedau ffydd i gymdeithas waraidd yng Nghymru.

Mae hyn hefyd yn amcangyfrif rhannol. Mae gan bob un o'r prif grefyddau ethos o annog eu haelodau i wasanaethu cymdeithas waraidd fel unigolion; er enghraifft, trwy eu busnesau, eu swyddi, eu teuluoedd ac fel cymdogion. Mae sawl mudiad gwirfoddol pwysig yn cael eu hysbrydoli gan ethos un ffydd neu'i gilydd. Mae'r agweddau hyn yn aros i gael eu harchwilio yn y dyfodol.

Am y tro, dylai'r adroddiad hwn nid yn unig gynyddu ein dealltwriaeth o rôl cymunedau ffydd, ond hefyd hwyluso cydweithio mwy hysbys rhwng cymunedau ffydd, y llywodraeth a phob corff arall sy'n gweithio i wella ansawdd bywyd yng Nghymru.







Tachwedd
Marcus Bracy
Sam Richards
October
Hydref
Connor George
Dafydd Hughes
Ellie McShane
Keeva Parry
Rebecca Reinhold
Olivia Kisley Jones
Evelyn Scott
Brooke Oliver
September
Medi
Christopher Poppy
Chloe Williams
Lillie Mai Taylor
Thomas Williams
Rhagfyr
Kelsey Simon
Poppy Brown
Cameron Mills
January
Ionawr
February
Esme Jones
Cari Ayres
Emma Soto
Kaine Evans
Freya Keen
July
Mehefin


BANK






Cadbury





# Rhagymadrodd

Hyd yn hyn, roedd diffyg tystiolaeth ystadegol i Gymru o'r gwasanaethau y mae cymunedau ffydd yn eu darparu ar gyfer eu cymunedau ehangach. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio llenwi'r bwlch hwnnw. Mae'n canolbwyntio ar y gwasanaethau y mae cymunedau ffydd yn eu cynnig i'r gymuned ehangach trwy eu gwirfoddolwyr a'u staff cyflogedig, a'r ystafelloedd ac adeiladau y maen nhw'n cynnig ar gyfer grwpiau cymunedol eraill.

Mae wedi cael ei baratoi gan Gweini: Cyngor y Sector Gwirfoddol Cristnogol yng Nghymru, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Roedd CGGC yn gyfrifol am ddosbarthu holiadur yr arolwg, gellir ei weld yn Atodiad 2, ac am gasglu'r data. Roedd Gweini yn gyfrifol am adeiladu'r rhestr o gymunedau ffydd, am gynnwys yr holiadur (ar y cyd â CGGC) ac am ddadansoddi'r data. Mae'r amcangyfrifon yn yr adroddiad yn seiliedig ar fethodoleg wedi'i chytuno rhwng Gweini a CGGC.

Cenhadaeth Gweini yw "gweini'r sector gwirfoddol Cristnogol yng Nghymru trwy rwydweithio, cynrychioli a gwybodaeth ar lefel genedlaethol a lleol" (gweler www.gweini.org.uk). Nod CGGC yw gweithredu fel "llais y sector gwirfoddol yng Nghymru", gyda'r genhadaeth o "gynrychioli ac ymgyrchu ar gyfer mudiadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau" (gweler www.wcva.org.uk).

## Y cymunedau ffydd dan sylw

Y cymunedau ffydd dan sylw yn yr astudiaeth hon yw'r rheiny sy'n cael eu cynrychioli ar Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o gymunedau ffydd Bahá'í, Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd a Sikhaidd, yn ogystal â chynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig yng Nghymru, Cyngor Eglwysi Rhyddion, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) a Chynghrair Efengylaidd Cymru. Mae'r Fforwm yn cwrdd bob chwe mis, gyda Phrif Weinidog Cymru yn gadeirydd, gan ddod ag arweinwyr ffydd ac Aelodau Cynulliad ynghyd. Ei genhadaeth yw gwella a chryfhau perthnasoedd rhyng-ffydd, ac edrych ar ffyrdd y gall pawb yng Nghymru deimlo eu bod nhw'n rhanddeiliaid llawn yng nghymdeithas Cymru. Rhoddodd pob un o'r arweinwyr ffydd sy'n cael eu cynrychioli ar y Fforwm (yn ogystal ag arweinwyr pob enwad a grŵp cyswllt Cristnogol) eu cefnogaeth frwd i'r prosiect, a naill ai darparu manylion cyswllt eu cynulleidfaoedd addoli neu gytuno dosbarthu'r holiaduron eu hunain.

Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar holiadur a gafodd ei anfon at bob cymuned ffydd wedi'u hadnabod trwy ymchwiliad manwl gyda chyfraniad arweinwyr yr holl grefyddau uchod. Roedd y gyfradd ymateb grynswth yn arbennig o uchel ar gyfer arolwg o'r fath hon, ychydig dros 49%. Amrywiodd y cyfraddau ar gyfer y crefyddau unigol a phrif enwadau Cristnogol o 29% hyd at 59%. Am fanylion am y weithdrefn samplo a'r cyfraddau ymateb, gweler Atodiad 3.

## Beth mae'r astudiaeth hon yn ei gynnwys

Mae'n bwysig nodi'r hyn y mae'r astudiaeth yn ei gynnwys a'r hyn nad yw'n ei gynnwys. Yn gyntaf, mae'n cynnwys dim ond prosiectau neu weithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach. Mae'n hepgor yn benodol holl weithgareddau crefyddol megis gwasanaethau addoli neu grwpiau gweddïo, a'r holl weithgareddau wedi'u cynnal ar gyfer y cynulleidfaoedd crefyddol eu hunain. Penderfyniad bwriadol oedd hyn a chafodd ei wneud yn glir yn yr holiadur.

Yn ail, mae'n delio â dim ond rhan o gyfraniad cymunedau ffydd at gymdeithas ehangach. Mae gan bob un o'r prif grefyddau ethos o annog eu haelodau i gynnig gwasanaeth i gymdeithas fel unigolion, er enghraifft trwy eu busnesau, eu swyddi, fel cymdogion ac fel aelodau cymdeithas waraidd. Mae pob cymuned ffydd yn darparu cymorth i'w haelodau eu hunain ac mae sawl mudiad gwirfoddol wedi cael eu hysbrydoli gan ethos un ffydd neu'i gilydd. Serch hynny, does dim un o'r agweddau hyn o gyfraniad cymunedau ffydd wedi cael eu cynnwys yn yr astudiaeth hon. Mae'r ffocws dim ond ar y gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg, eu rheoli neu eu trefnu gan y cynulleidfaoedd addoli eu hunain ar gyfer y gymuned ehangach.

Felly, er enghraifft, byddai gweithgareddau aelod unigol cymuned ffydd yn cynnig cymorth a chyngor i gyplau sy'n paratoi ar gyfer priodas ond yn cael eu cynnwys petai'r gwasanaeth yn cael ei drefnu gan y gymuned ffydd. Ni fyddai'n cael ei gynnwys petai'r unigolyn yn darparu'r gwasanaeth ar ei liwt ei hunain, neu petai'r gwasanaeth yn cael ei gynnig o fewn cyd-destun mudiad gwirfoddol arall, hyd yn oed petai'r mudiad hwnnw yn un ar sail ffydd. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys y mudiadau ieuenctid Cristnogol, Ignite a Sporting Marvels, a gwaith canolfannau diwylliannol Islamaidd.[1] Gofynnodd yr arolwg am wybodaeth gryno ar brosiectau wedi'u dechrau gan gymunedau ffydd dros y pum mlynedd diwethaf ond bellach yn annibynnol rhagddyn nhw, ac adroddodd dros gant o gymunedau ffydd y fath brosiectau, gan drafod amrywiaeth eang o feysydd.

Yn gyffredinol, mae'r amcangyfrifon sy'n cael eu darparu yn cyfeirio at y cymunedau ffydd i gyd yng Nghymru ac maen nhw'n seiliedig ar allosodiad y wybodaeth a ddarparwyd gan atebwyr yr arolwg i boblogaeth y cymunedau ffydd fel cyfangorff. Oherwydd y gyfradd ymateb uchel, ac argaeledd gwybodaeth gyflenwol werthfawr iawn, ystyrir bod gan yr amcangyfrifon hyn radd foddhaol o drachywiredd (gweler Atodiad 5).

# 1. Cymunedau ffydd yng Nghymru

Yn ôl astudiaeth swyddogol ddiweddar[2], yn 2001, roedd pobl o grefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol yn gwneud dim ond 2% o'r boblogaeth yng Nghymru, o gymharu â 6% o'r boblogaeth yn Lloegr. Mae pobl o gefndiroedd Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd a Sikhaidd yn tueddu cael eu crynhoi mewn ardaloedd trefol mawr, tra bod Cristnogion a'r rheiny heb unrhyw grefydd wedi'u gwasgaru'n fwy cyfartal ar draws y wlad.

Mae'r patrwm hwn yn cael ei adlewyrchu yn y ffigyrau isod, sy'n seiliedig ar gymunedau ffydd yn hytrach nag unigolion. Maen nhw'n cyfeirio at y saith cymuned ffydd sy'n cael eu rhestru yn y Rhagymadrodd: Bahá'í, Bwdhaidd, Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd a Sikhaidd. Ar ben hynny, mae'r cymunedau Cristnogol yn cael eu rhannu i'r naw grŵp canlynol: Annibynwyr, Bedyddwyr, Yr Eglwys yng Nghymru, Methodistiaid, yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Presbyteriaid Cymru, Enwadau Diweddarach a Christnogol Eraill.

Mae'r enwadau diweddarach yn cynnwys Eglwysi Apostolaidd ac Elim, sy'n olrhain eu gwreiddiau at Ddiwygiad Cymru 1904, yn ogystal â nifer o sefydliadau cymharol ddiweddar eraill gan gynnwys Assemblies of God, Pioneer a New Frontiers. At hynny, mae'r categori Enwadau Diweddarach yn cynnwys grwpiau cyswllt sy'n cael eu cynrychioli gan y Gymdeithas o Eglwysi Efengylaidd yng Nghymru (AECW) a Fellowship of Independent Evangelical Churches (FIEC), yn ogystal â nifer o eglwysi ethnig.

Mae cynulleidfaoedd o dan Gristnogol Arall yn cynnwys Y Brodyr, y Gynghrair Gynulleidfaol, Uniongred, Crynwyr, Byddin yr Iachawdwriaeth ac Adfentyddion y Seithfed Dydd, yn ogystal â nifer sylweddol o eglwysi Annibynnol. Am restr lawn, gweler Atodiad 1.

Er hwylustod, yn yr hyn sy'n dilyn, cyfeirir at y naw dosbarthiad uchod, yn llac, fel yr "enwadau Cristnogol".

## Niferoedd Cymunedau Ffydd yng Nghymru

Mae Cymru'n rhyfeddol am ei nifer o gymunedau ffydd y pen o'r boblogaeth. Nododd yr astudiaeth 4,438 o gynulleidfaoedd addoli yng Nghymru. Gan ystyried bod poblogaeth Cymru yn 2005 wedi cael ei hamcangyfrif ychydig o dan dair miliwn, mae hyn yn cynrychioli un gynulleidfa o'r fath i bob 670 o bobl yn y boblogaeth. Yng Ngogledd Orllewin Lloegr, er enghraifft, y ffigwr cyfatebol yw tua un gynulleidfa addoli i bob 1,600 o bobl.[4]


Roedd 4,390 o gynulleidfaoedd addoli, sy'n cynrychioli 99% o'r rheiny a gafodd eu nodi yn yr arolwg, yn gynulleidfaoedd Cristnogol (Siart 1.1). Rhagdybir na chafodd nifer sylweddol o eglwysi annibynnol, efallai tua chant neu fwy, eu canfod gan yr arolwg, er gwaethaf ymdrechion i gysylltu â nhw trwy rwydweithiau eglwysi lleol a chynrychiolwyr grwpiau Gweini lleol.

Cafodd pedwar deg wyth o gynulleidfaoedd ffydd nad ydynt yn rhai Cristnogol eu nodi yn yr astudiaeth, y rhan fwyaf ohonyn nhw'n Fwslimaidd (Siart 1.2). Eto, ni chafodd nifer sylweddol o gynulleidfaoedd nad ydynt yn rhai Cristnogol eu cynnwys, gan bennaf cymunedau Bwdhaidd.


Yn olaf, mae nifer o gynulleidfaoedd addoli heb eu cynnwys gan nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru. Tystion Jehofa a'r Mormoniaid yw dwy enghraifft, bob un yn cynrychioli niferoedd sylweddol o bobl.

Ymhlith y cynulleidfaoedd Cristnogol, yr Eglwys yng Nghymru yw'r dosbarthiad mwyaf, 30% o gyfanswm y 4,390 a gafodd eu nodi. Mae'r enwadau Cymraeg eu hiaith, sef yr


Siart 1. Niferoedd cymunedau ffydd yng Nghymru




Siart 2. Cymunedau ffydd nad ydynt yn rhai Cristnogol




Siart 3. Cynulleidfaoedd Cristnogol yn ôl enwad



Annibynwyr a Phresbyteriaid Cymru yn dod i gyfanswm ychydig o dan 30% o'r holl gynulleidfaoedd Cristnogol.

Mae'r ffigyrau uchod yn cyfeirio at gynulleidfaoedd unigol. Serch hynny, weithiau mae gwybodaeth dim ond ar gael ar gyfer grwpiau o gynulleidfaoedd. Yr Eglwys yng Nghymru yw'r brif enghraifft yn yr achos hwn: mae adroddiadau blynyddol ar gyfer eu cynulleidfaoedd yn cael eu gwneud i awdurdodau'r esgobaethau ar sail blwyf, a gall plwyf grwpio hyd at 14 cynulleidfa at ei gilydd (er mai 2 yw'r cyfartaledd). Dylid ystyried y wybodaeth ystadegol isod ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru i gyfeirio at blwyfi, yn hytrach na chynulleidfaoedd.[5] Ar ben hynny, mae sawl eglwys yn grwpio ar y cyd ag eglwysi eraill er mwyn darparu gwasanaethau i'w cymunedau lleol, boed mewn grwpiau anffurfiol o fewn neu ar draws ffiniau enwadol, neu mewn Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol (LEPs).[6]


Yng ngweddill yr adroddiad hwn, mae'r ymadrodd "cymunedau ffydd" yn cyfeirio at gynulleidfaoedd addoli unigol o grefyddau ac enwadau Cristnogol gwahanol, gydag eithriad pwysig yr Eglwys yng Nghymru. Ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru, mae'r ymadrodd yn cyfeirio at blwyfi, nid cynulleidfaoedd. Cyfanswm y "cymunedau ffydd" yn yr ystyr yma - plwyfi'r Eglwys yng Nghymru yn ogystal â chynulleidfaoedd unigol ar gyfer yr holl grefyddau ac enwadau eraill - yw 3,920.[7] Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar y 1,774 o atebion cyflawn a gafodd eu derbyn oddi wrth y boblogaeth yma o gymunedau ffydd.

## Lleoliad daearyddol cymunedau ffydd

Mae cymunedau ffydd wedi'u gwasgaru ar draws pob rhan o Gymru, gan gynnwys yr holl ardaloedd gwledig, lle mai eglwysi yw'r rhan helaethaf ohonyn nhw (Siart 4).


Fel y gellid ei weld o gymhariaeth o ddau map llai (Siart 5) mae cymunedau ffydd yn tueddu i gael eu crynhoi mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uchel, gan gynnwys sawl ardal drefol sydd bellach yn dioddef o lefelau uchel o amddifadedd. Rhan o'r esboniad yw bod pobl wedi cael eu denu i'r ardaloedd trefol hynny gan ddiwydiannau llewyrchus, a chafodd eglwysi eu codi i'w gwasanaethu nhw. Mae'r diwydiannau hyn bellach wedi dirywio, gan wanhau sylfaen economaidd yr ardaloedd, ond mae llawer o'r eglwysi'n dal i fod yn weithgar. Ar ben hynny, dros y blynyddoedd diwethaf, mae crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol a rhai enwadau Cristnogol wedi sefydlu cymunedau ffydd trefol newydd i wasanaethu poblogaethau lleol.

Siart 4. Dosbarthiad daearyddol cymunedau ffydd





Ffynhonnell: Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru ar sail gwybodaeth wedi'i darparu gan Gweini

Siart 5a. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i ardaloedd bychain (LSOAs)




Ffynhonnell: Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru

Siart 5b. Dwysedd poblogaeth i ardaloedd bychain yng Nghymru (amcangyfrifon 2005




Ffynhonnell: Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru

# 2. Niferoedd sy'n mynychu cymunedau ffydd


Gellir mesur presenoldeb mewn cymunedau ffydd mewn nifer o ffyrdd gwahanol.

Mae'r cyntaf, a'r dull mwyaf cyffredin, yn golygu gofyn faint o bobl a fynychodd sesiwn addoli yn yr wythnos cyn yr arolwg. Mae hyn yn cynhyrchu cyfanswm o tua 210,000, sy'n cynrychioli ychydig dros 7% o'r holl boblogaeth yng Nghymru, y mae presenoldeb mewn eglwysi Cristnogol ychydig o dan 200,000 (Siart 6).


Ymhlith y crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol, mae dylanwad maint mawr ar gyfartaledd y cynulleidfaoedd Hindŵaidd yn amlwg (Siart 7).

Mae'r ffigyrau ar gyfer y niferoedd sy'n mynychu yn ôl enwad Cristnogol yn dangos lledaeniad mwy cyfartal ar draws yr enwadau na'r ffigyrau ar gyfer niferoedd y cynulleidfaoedd, a ddangosir yn Siart 1.3 uchod. Mae hyn oherwydd meintiau cynulleidfa cymharol fawr cynulleidfaoedd yr enwadau newydd a chynulleidfaoedd yr Eglwys Gatholig, o gymharu er enghraifft â'r rheiny i'r Eglwys yng Nghymru, er bod yr enwad hwn yn adrodd o hyd y nifer mwyaf o bobl yn mynychu gwasanaethau dros yr wythnos flaenorol (Siart 8, gweler drosodd).


Siart 6. Niferoedd yn mynychu gwasanaethau crefyddol dros wythnos




Siart 7. Niferoedd yn mynychu dros wythnos, crefyddau lleiafrifol




Siart 8. Niferoedd yn mynychu dros wythnos, enwadau Cristnogol



## 2. Niferoedd sy'n mynychu cymunedau ffydd (parhaol)


Serch hynny, mae cwestiwn arall yn yr arolwg yn cynnig mesur amgen. Gofynnodd hyn i atebwyr roi'r nifer uchaf a fynychodd unrhyw un gwasanaeth dros y flwyddyn flaenorol. Yn naturiol mae'r ffigyrau hyn yn llawer uwch, tua 455,000, neu ychydig dros 15% o boblogaeth Cymru, ac mewn sawl ffordd mae'n cynnig gwell safbwynt o effaith cymunedau ffydd (Siart 9).

Yn y lle cyntaf, mae astudiaethau wedi dangos bod aelodau cymunedau ffydd, dros y blynyddoedd diwethaf, yn mynychu eu cynulleidfa leol yn rheolaidd, ond yn llai aml nag unwaith yr wythnos. Felly gallai'r ffigwr presenoldeb wythnosol fod yn llawer llai na nifer y mynychwyr rheolaidd. At hynny, mewn sawl pentref, mae'n bosibl mai'r eglwys, er bod y niferoedd sy'n mynychu yn gymharol isel yn wythnosol, yw'r lle pwysicaf i gwrdd, oherwydd absenoldeb pob neu bron pob adeilad cyhoeddus arall. Felly gallai presenoldeb cymharol fawr mewn digwyddiadau mawr yn y calendr Cristnogol ddwyn pwysigrwydd sylweddol mewn bywyd pentrefi. Yn yr un ffordd, mae gwyliau blynyddol yn dwyn pwysigrwydd mawr i fywyd sawl cymuned ethnig leiafrifol yng Nghymru.

Wrth gwrs, mae'r ffigwr hwn o 15% yn amcangyfrif rhy isel o gyfansymiau'r bobl sy'n mynychu gwasanaethau wedi'u trefnu gan gymunedau ffydd yng Nghymru. Mae llawer yn mynychu gwasanaethau ar wahân i'r un sy'n denu'r nifer mwyaf o bobl dros y flwyddyn. Mae llawer mwy yn mynychu angladdau, priodasau, gwasanaethau bedyddio a gwasanaethau eraill sy'n nodi'r prif ddigwyddiadau ym mywyd y gymuned.

Mae'r niferoedd sy'n mynychu cymunedau ffydd unigol yn amrywio'n fawr. Mae sawl cymuned ffydd yn adrodd ond llond llaw o addolwyr. Ar y llaw arall, mae rhai yn cofnodi niferoedd yn codi hyd at 1,500 o bobl mewn gwasanaeth sengl (Tabl 1).

Siart 9. Presenoldeb yn y gwasanaeth mwyaf dros y flwyddyn



## Tabl 1. Presenoldeb mewn cymunedau ffydd

| | Dros yr wythnos flaenorol | Gwasanaeth mwyaf dros y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|
| **Niferoedd uchaf a fynychodd** | | |
| **Crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol** | | |
| Bahá'í | 23 | 70 |
| Bwdhaidd | 100 | 110 |
| Hindwaidd | 1,000 | 1,000 |
| Islamaidd (Mwslimaidd) | 600 | 1,000 |
| Iddewig | 70 | 200 |
| Sikhaidd | 70 | 250 |
| | | |
| **Enwadau Cristnogol** | | |
| Annibynwyr | 150 | 1,300 |
| Bedyddwyr | 260 | 400 |
| Yr Eglwys yng Nghymru | 370 | 1,500 |
| Methodistiaid | 300 | 450 |
| Yr Eglwys Gatholig | 750 | 1,300 |
| Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig | 200 | 300 |
| Presbyteriaid Cymru | 200 | 500 |
| Enwadau Diweddarach | 450 | 500 |
| Cristnogol Arall | 400 | 650 |
| Pob enwad Cristnogol | 750 | 1,500 |
| | | |
| **Niferoedd yn mynychu ar gyfartaledd[a]** | | |
| **Crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol** | | |
| Bahá'í | 8 | 20 |
| Bwdhaidd | 100 | 110 |
| Hindwaidd | 128 | 300 |
| Islamaidd (Mwslimaidd) | 300 | 500 |
| Iddewig | 55 | 200 |
| Sikhaidd | 70 | 250 |
| | | |
| **Enwadau Cristnogol** | | |
| Annibynwyr | 15 | 50 |
| Bedyddwyr | 20 | 55 |
| Yr Eglwys yng Nghymru | 43 | 120 |
| Methodistiaid | 25 | 70 |
| Yr Eglwys Gatholig | 250 | 345 |
| Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig | 25 | 70 |
| Presbyteriaid Cymru | 16 | 50 |
| Enwadau Diweddarach | 65 | 120 |
| Cristnogol Arall | 36 | 80 |
| Pob enwad Cristnogol | 25 | 65 |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r holiadur yn unig.
a. Y canolrif yw'r cyfartaledd sy'n cael ei ddangos.

# 3. Niferoedd gwirfoddolwyr wedi'u trefnu gan gymunedau ffydd

Mae amcangyfrifon o'r arolwg yn dangos bod tua 42,000 o wirfoddolwyr yn cael eu trefnu gan gymunedau ffydd i ddarparu gwasanaethau neu weithgareddau ar gyfer eu cymunedau lleol, ac mae tua 41,00 ohonyn nhw'n dod o'r eglwysi (Siart 10).

O fewn y crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol, mae'r wybodaeth a gafodd ei hadrodd i'r arolwg yn awgrymu bod y gymuned Fwslimaidd yn darparu'r nifer mwyaf, ychydig o dan 900, yn unol â'i statws fel y grefydd fwyaf nad yw'n Gristnogol yng Nghymru (Siart 5.2). Serch hynny, mae dadansoddiad mwy manwl yn dangos bod, mewn cyfrannedd â maint eu cynulleidfaoedd, mae'r crefyddau Bahá'í ac Iddewig yn darparu'r nifer uchaf o wirfoddolwyr, deirgwaith a dwywaith y cyfartaledd cyfan, yn eu tro.

Mae pob un o'r prif enwadau Cristnogol hefyd yn adrodd niferoedd mawr o wirfoddolwyr, o un hyd at dair mil ar ddeg, yn nhermau'r prif ddosbarthiadau sy'n cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn (Siart 11). Ar gyfartaledd mae hyn yn awgrymu bod pob cynulleidfa neu blwyf yn cyflenwi 10 o wirfoddolwyr. O'u cymharu â maint y gynulleidfa, mae'r Annibynwyr a Phresbyteriaid Cymru'n dueddol o gyflenwi niferoedd uwch o wirfoddolwyr, tua 50% yn fwy na'r cyfartaledd i bob enwad Cristnogol arall.


Mae llawer o'r gwirfoddolwyr hyn yn gweithio gyda phobl ifanc: mae'r cyfrannau uchaf a gafodd eu hadrodd, dros 60%, yn cael eu gweld yn y grefydd Bahá'í a'r enwadau Cristnogol Diweddaraf ac Eraill (Tabl 2).

### Tabl 2. Cyfran y gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant neu bobl ifanc


| | Canrannau |
|---|---|
| **Crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol** | |
| Bahá'í | 61.9 |
| Bwdhaidd | 20.0 |
| Hindwaidd | 38.7 |
| Islamaidd (Mwslimaidd) | 34.2 |
| | |
| **Enwadau Cristnogol** | |
| Annibynwyr | 35.6 |
| Bedyddwyr | 50.0 |
| Yr Eglwys yng Nghymru | 34.0 |
| Methodistiaid | 42.0 |
| Yr Eglwys Gatholig | 39.4 |
| Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig | 35.9 |
| Presbyteriaid Cymru | 46.3 |
| Enwadau Diweddarach | 61.8 |
| Cristnogol Arall | 60.5 |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r holiadur yn unig.


Siart 10. Gwirfoddolwyr yn gwasanaethu'r gymuned ehangach




Siart 11. Gwirfoddolwyr wedi'u trefnu gan grefyddau lleiafrifol




Siart 12. Gwirfoddolwyr wedi'u trefnu gan enwadau Cristnogol



# 4. Oriau a weithiwyd gan wirfoddolwyr ar ran y gymuned ehangach


Ar gyfartaledd, mae cyfanswm yr oriau a weithiwyd gan wirfoddolwyr mewn prosiectau a gweithgareddau a gafodd eu trefnu gan eu cynulleidfaoedd yn cael ei amcangyfrif yn 79,000 awr yr wythnos, ac mae ychydig dros 77,000 awr o'r oriau hynny yn cael eu cyfrif yn erbyn enwadau Cristnogol (Siart 13).

Ymysg y crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol, mae cynulleidfaoedd Bahá'í yn amlwg o ran gwirfoddoli nifer hynod o uchel o oriau ar gyfartaledd i bob person (Siart 14).


Yn gyfan gwbl, mae'r 10 o wirfoddolwyr fesul cynulleidfa neu blwyf Cristnogol ar gyfartaledd, sy'n cael eu nodi uchod, yn gwneud dwy awr yr wythnos yr un ar gyfartaledd.

Wedi'i fynegi yn nhermau pobl gyfwerth â llawn amser, a chan gymryd cyfartaledd o 40 awr yr wythnos, mae mewnbwn y gwirfoddolwyr yn gyfwerth ag ychydig o dan 2,000 o weithwyr llawn amser, eto o'r enwadau Cristnogol gan fwyaf.


Siart 13. Oriau a weithiodd gwirfoddolwyr i wasanaethu'r gymuned ehangach




Siart 14. Oriau a weithiodd gwirfoddolwyr o grefyddau lleiafrifol




Siart 15. Oriau a weithiodd gwirfoddolwyr o enwadau Cristnogol




# 5. Staff cyflogedig sy’n trefnu gwasanethau i’r gymuned ehangach

Yn ogystal â threfnu gweithgarwch gwirfoddolwyr, mae llawer o gymunedau ffydd yn defnyddio staff cyflogedig at ddibenion cynnig gwasanaethau i’r gymuned ehangach. Gofynnodd yr holiadur am niferoedd unrhyw staff cyflogedig a chyfran y staff hyn sy’n gweithio gyda phobl ifanc. Yn olaf, gofynnodd am amcangyfrif o gyfanswm oriau staff cyflogedig sy’n cael eu rhoi i’r gymuned.

Tra bod y rhan fwyaf o gymunedau ffydd heb gyflogi staff, amcangyfrifwyd 17% o’r rheiny a atebodd i’r arolwg iddyn nhw gyflogi o leiaf un person. Cyflogodd ychydig dros 60%, neu 400 o gymunedau, o’r rheiny sy’n cyflogi staff dim ond un person (Siart 16). Yr uchaf a gafodd ei adrodd oedd 25 o staff cyflogedig.

Yn gyfan gwbl, mae’n cael ei amcangyfrif bod ychydig o dan 1,400 o staff yn cael eu cyflogi gan gymunedau ffydd yng Nghymru i drefnu gweithgareddau i’r gymuned ehangach, ac mae ychydig o dan 300 ohonyn nhw’n gweithio gyda phobl ifanc (Tabl 3). Mae cyfanswm yr oriau y mae’r staff cyflogedig hyn yn rhoi i’w gwaith ar ran y gymuned ehangach yn cael ei amcangyfrif dros 23,500 awr yr wythnos, neu 570 o weithwyr llawn amser eraill.

Siart 16. Cymunedau ffydd yn ôl niferoedd staff cyflogedig




**Tabl 3. Staff cyflogedig sy'n gweithio i drefnu gweithgareddau i'r gymuned ehangach**

| | Niferoedd staff cyflogedig | Niferoedd sy'n gweithio gyda phobl ifanc | Cyfanswm mewnbwn oriau wythnosol |
|---|---|---|---|
| **Crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol** | | | |
| Bwdhaidd | 2 | | 80 |
| Islamaidd (Mwslimaidd) | 65 | 27 | 1,490 |
| | | | |
| **Enwadau Cristnogol** | | | |
| Annibynwyr | 58 | 5 | 1,130 |
| Bedyddwyr | 124 | 14 | 1,790 |
| Yr Eglwys yng Nghymru | 405 | 50 | 7,420 |
| Methodistiaid | 125 | 32 | 1,640 |
| Yr Eglwys Gatholig | 42 | 6 | 360 |
| Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig | 39 | 3 | 490 |
| Presbyteriaid Cymru | 45 | 3 | 680 |
| Enwadau Diweddarach | 313 | 21 | 4,960 |
| Cristnogol Arall | 168 | 38 | 2,990 |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon i'r boblogaeth gyfan.

# 6. Gwasanaethau a ddarperir gan gymunedau ffydd

Gofynnodd yr arolwg i gymunedau ffydd ddweud, dros y flwyddyn ddiwethaf, a oedden nhw wedi trefnu, rhedeg neu reoli unrhyw brosiectau neu weithgareddau gan wasanaethu'r gymuned ehangach yn y meysydd sy'n cael eu rhestru yn Nhabl 4 isod. Hefyd gofynnwyd iddyn nhw a ydyn nhw'n gobeithio cyflwyno'r fath weithgareddau yn y dyfodol. Cafodd ei bwysleisio y dylen nhw hepgor unrhyw weithgareddau crefyddol, gweithgareddau sy'n cynnwys dim ond eu cynulleidfaoedd, a'r rheiny yr oedd grwpiau annibynnol yn gyfrifol amdanyn nhw, hyd yn oed os ydyn nhw'n digwydd ar ystafelloedd ac adeiladau cymunedau ffydd.

Gellir gweld bod cymunedau ffydd yn cymryd rhan mewn nifer eang iawn o feysydd. Y rhai mwyaf cyffredin oedd ymweld ag ysbytai, wedyn gwaith plant, trefnu mathau gwahanol o weithgareddau cymdeithasol, paratoi ar gyfer priodas a chefnogaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth. Serch hynny, roedd llawer yn ymwneud â meysydd llai traddodiadol, fel cynghori cyffredinol, gweithgarwch rhyng-ffydd ac atal troseddu.

Yn gyfan gwbl, cafodd ychydig o dan 17,000 o weithgareddau eu nodi fel rhai sydd ar waith ar hyn o bryd, gyda dyheadau ar gyfer y dyfodol yn cynrychioli rhyw 9,000 pellach, tua 50%.


Roedd y meysydd lle roedd dyheadau'n arbennig o gryf, o gymharu â darpariaeth bresennol, yn cynnwys hyfforddiant ym maes rhifedd, menter gymdeithasol neu fusnes cymunedol, hyfforddiant cyflogaeth a phrofiad gwaith, sgiliau iaith Saesneg, ymwybyddiaeth o alcohol, cyllid personol ac ymwybyddiaeth o gyffuriau.

Mae hyn yn awgrymu bod cymunedau ffydd nid yn unig yn parhau i ddarparu gwasanaeth i gymunedau lleol mewn meysydd traddodiadol o angen, ond hefyd eu bod nhw'n awyddus i symud i sawl maes o angen a chyfleoedd am wasanaeth sydd wedi dod i'r amlwg dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae nifer y mathau o weithgarwch gwasanaeth yn amrywio'n fawr. Yn gyfan gwbl, roedd 69% o gymunedau ffydd yn cymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd, a chanolrif y gweithgareddau yn y fath gymunedau ffydd oedd 5 (Siart 17).[8]

Yn ogystal â'r wybodaeth sy'n cael ei dangos yn Nhabl , mae'r canlyniadau'n awgrymu bod ychydig o dan 100 o gymunedau ffydd yng Nghymru'n gweithio i helpu cymunedau ffoaduriaid yng Nghymru – wyth deg o gynulleidfaoedd neu blwyfi Cristnogol ac ychydig o dan 20 mosg Mwslimaidd.

Siart 17. Cymunedau ffydd yn ôl nifer gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd




Amcangyfrifon i'r boblogaeth gyfan

**Tabl 4. Cymunedau ffydd yn darparu gwasanaethau ar hyn o bryd**
***(a'r rheiny sy'n gobeithio gwneud yn y dyfodol)***

| | Yn darparu gwasanaeth ar hyn o bryd | | *Gobeithio, yn y dyfodol* |
|---|---|---|---|
| | **Cristnogol** | **Dim yn Gristnogol** | ***Pob ffydd*** |
| **Gwasanaethau** | | | |
| Ymweld ag ysbytai | 1,530 | 20 | *210* |
| Gwaith plant (dan 14 oed) | 1,500 | 30 | *110* |
| Gweithgareddau cymdeithasol (clwb cinio, bar coffi, ac ati) | 1,480 | 40 | *310* |
| Paratoi ar gyfer priodas | 1,190 | 20 | *280* |
| Cefnogaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth | 1,090 | 30 | *180* |
| Cefnogaeth i bobl hwn | 1,080 | 30 | *210* |
| Gwaith ieuenctid (14-25 oed) | 970 | 30 | *360* |
| Cefnogaeth ar gyfer pobl sydd gyda salwch tymor hir | 800 | 30 | *180* |
| Grwp rhieni a phlant bach | 760 | 10 | *450* |
| Cyngor cwnsela cyffredinol | 720 | 10 | *230* |
| Gweithgareddau hamdden a hobïau | 690 | 30 | *210* |
| Addysg/gwerthfawrogi cerddoriaeth/y celfyddydau | 690 | 10 | *260* |
| Grwp meithrin, meithrinfa neu grwp chwarae | 460 | 10 | *320* |
| Gweithgarwch rhyng-ffydd | 370 | 20 | *160* |
| Cefnogaeth i rieni sengl | 310 | 10 | *330* |
| Ymweld â charchardai | 270 | 20 | *420* |
| Cyfoethogi priodas | 250 | 30 | *230* |
| Canolfan galw heibio | 230 | 20 | *350* |
| Chwaraeon a ffitrwydd | 230 | 10 | *260* |
| Atal troseddu/diogelwch yn y gymuned | 220 | 10 | *240* |
| Gwella'r amgylchedd yn lleol | 210 | 10 | *480* |
| Sgiliau magu plant | 210 | 10 | *270* |
| Cyngor am fyw'n iach | 150 | 20 | *290* |
| Hyfforddiant TG | 130 | | *280* |
| Sgiliau iaith - Cymraeg | 130 | | *290* |
| Rhaglen ymwybyddiaeth o gyffuriau | 90 | 20 | *320* |
| Cegin gawl i bobl ar y stryd | 100 | 10 | *260* |
| Arian personol | 90 | 10 | *300* |
| Gwrth-hiliaeth | 90 | 10 | *200* |
| Rhaglen ymwybyddiaeth o alcohol | 80 | 10 | *300* |
| Sgiliau iaith - Saesneg | 70 | 10 | *270* |
| Hyfforddiant cyflogaeth a phrofiad gwaith | 70 | | *270* |
| Menter gymdeithasol neu fusnes cymunedol | 60 | | *250* |
| Hyfforddiant ym maes rhifedd | 40 | | *260* |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon i'r boblogaeth gyfan

# 7. Cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon

Ar wahân i'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i'r gymuned, mae cymunedau ffydd yn cymryd rhan yn y gymuned trwy eu gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon.

Mae Tabl 5 yn dangos yr atebion i restrau'r gweithgareddau sy'n cael eu nodi yn yr holiadur. Gweithgareddau cerddorol, naill ai corawl neu offerynnol, yw'r gweithgareddau diwylliannol sy'n cael eu nodi amlaf: mae hyn yn berthnasol i'r crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol, fel cyfangorff, yn ogystal â'r enwadau Cristnogol.

Yn dilyn hyn, mae nifer sylweddol iawn o eglwysi'n chwarae rhan mewn gwyliau pentref a ffeiriau cymunedol. Gall y rhain fod o bwysigrwydd sylweddol i fywyd mewn ardaloedd gwledig.

Serch hynny, mae niferoedd sylweddol o gymunedau ffydd yn cymryd rhan mewn mathau eraill o weithgareddau diwylliannol, gan gynnwys rhai sy'n perthyn i'r iaith Gymraeg, fel y nodir yn Adran 11 isod.

O ran gweithgareddau chwaraeon, mae gemau pêl-droed yn uchel ar y tabl, i grefyddau Cristnogol ac eraill, ond maen nhw'n cael eu disodli o'r brig gan grwydro.

Ar wahân i gemau cardiau, mae pob un o'r gweithgareddau chwaraeon a nodwyd yn cynnwys gweithgaredd corfforol, sy'n debygol o wella iechyd, ac mae'n cael ei amcangyfrif bod cymunedau ffydd yn ymwneud â thros fil o weithgareddau o'r fath.

**Tabl 5. Cymunedau ffydd yn ymwneud â'r gymuned ehangach mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon**

| | Cristnogol | Dim yn Gristnogol | Pob ffydd |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau diwylliannol** | | | |
| Cerddoriaeth gorawl | 1,400 | 4 | 1,400 |
| Cerddoriaeth offerynnol | 790 | 2 | 790 |
| Gwyl bentref | 780 | 0 | 780 |
| Ffair neu sioe gymunedol | 520 | 1 | 520 |
| Digwyddiadau eraill yn yr iaith Gymraeg | 430 | 2 | 430 |
| Drama | 380 | 2 | 380 |
| Eisteddfodau | 340 | 1 | 340 |
| Celf | 330 | 1 | 330 |
| Dawns | 250 | 2 | 250 |
| Adrodd barddoniaeth | 180 | 0 | 180 |
| **Gweithgareddau Chwaraeon** | | | |
| Crwydro | 270 | 0 | 270 |
| Gemau Pêl-droed | 200 | 14 | 210 |
| Dosbarthiadau ymarfer corff | 140 | 5 | 150 |
| Bowlio | 90 | 0 | 90 |
| Ysgol Bêl-droed | 70 | 0 | 70 |
| Hyfforddi Ffitrwydd | 70 | 5 | 70 |
| Gemau Rygbi | 40 | 1 | 50 |
| Celfyddydau Brwydro | 40 | 5 | 50 |
| Badminton | 30 | 3 | 30 |
| Pêl-fasged | 30 | 0 | 30 |
| Gemau cardiau | 140 | 1 | 140 |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon wedi'u talgrynnu i'r boblogaeth gyfan: efallai na fydd y niferoedd yn dod i'r cyfansymiau.

# 8. Ystafelloedd ac adeiladau ar gael i’r gymuned


Mae’n cael ei amcangyfrif bod pum cant saith deg o gymunedau ffydd yn rhedeg canolfannau cymunedol at bwrpas. Mae tua 1,700 yn rhentu ystafelloedd i grwpiau allanol y mae tua 1,500 yn grwpiau cymunedol, 900 yn gyrff cyhoeddus ac mae 1,200 yn fudiadau annibynnol (Siart 18). (Mae cyfanswm y tri olaf hyn yn dod at fwy na’r cyfanswm, gan fod llawer o gymunedau ffydd yn rhentu ystafelloedd i fwy nag un fath o fudiad allanol.)

Mae ffi yr awr ar gyfartaledd a nodwyd yn amrywio’n fawr, o ffi sylfaenol hyd at ffioedd uchel iawn, yn achos yr ystafelloedd a neuaddau mwyaf. Mae dros draean yn codi £5 yr awr, neu lai, ac mae’r ffi ar gyfartaledd ychydig dros £11 (lle mae mwy nag un ystafell dan sylw, mae hyn yn cyfeirio at yr ystafell fwyaf sydd ar gael).

Serch hynny, ar ben rhentu ystafelloedd i fudiadau allanol, mae tua 1,100 o gymunedau ffydd yn darparu ystafelloedd yn rhad ac am ddim. Adroddodd y rheiny a oedd yn gallu cyflenwi amcangyfrif o nifer oriau ystafell maen nhw’n eu cynnig, ffigwr ar gyfartaledd o 5 awr yr wythnos.

Mae llety hefyd yn cael ei ddarparu fel rhan o’r gwasanaethau i’r gymuned ehangach. Mae’n cael ei amcangyfrif i fod ychydig o dan 10 awr yr wythnos ar gyfartaledd fesul cymuned ffydd, neu dros 30,000 o oriau ystafell y flwyddyn yn gyfan gwbl.

Siart 18. Cymunedau ffydd yn rhentu ystafelloedd i'r gymuned



# 9. Yn Cefnogi'r Dreftadaeth Genedlaethol

Mae cymunedau ffydd yn cefnogi treftadaeth Cymru mewn nifer o ffyrdd.

Yn aml mae cymunedau ffydd yn gyfrifol am yr adeilad mwyaf hanesyddol arwyddocaol yn eu cymuned leol. Mae sawl adeilad o'r fath o bwysigrwydd diwylliannol ac mae rhai yn denu niferoedd mawr o dwristiaid. Mae llawer o gymunedau ffydd wedi bod yn bresennol yn eu cymunedau lleol ers canrifoedd ac yn aml mae eu hadeiladau, ar wahân i'w pwysigrwydd pensaernïol, yn darparu tirnodau pwysig a gwerthfawr.

## Adeiladau rhestredig

Gofynnwyd i atebwyr a oedden nhw'n addoli mewn adeilad rhestredig ac allan o'r 86% a atebodd, datganodd 30% fod eu hadeilad yn rhestredig. Dywedodd pedwar y cant fod eu hadeiladau yn Radd I (adeiladau o ddiddordeb eithriadol neu bensaernïol cenedlaethol neu hanesyddol), 6% Gradd II* (adeiladau arbennig o arwyddocaol, yn fwy na diddordeb lleol) a 21% Gradd II (adeiladau o ddiddordeb pensaernïol arbennig neu hanesyddol) (Siart 19).

Ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru, roedd y ffigyrau cyflawn wedi'u cyflenwi gan ei Gorff Cynrychiadol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gradd I: | 136 |
| Gradd II*: | 339 |
| Gradd II: | 473 |

Felly mae 948 o adeiladau rhestredig yn cael eu cynnal gan yr Eglwys yng Nghymru yn unig.


I'r cymunedau ffydd eraill, os byddwn ni'n gwneud amcangyfrif ceidwadol bod y rheiny nad atebodd i'r cwestiwn yma mewn adeiladau heb eu rhestru, byddwn ni'n dod i'r amcangyfrifon bras, canlynol:

| | |
|---|---|
| Gradd I: | 50 |
| Gradd II*: | 85 |
| Gradd II: | 510 |


Mae hyn yn awgrymu bod cymunedau ffydd yng Nghymru'n cynnal tua 1,600 o adeiladau rhestredig, gyda thua 200 ohonyn nhw'n Radd I a thros 400 yn Radd II*.

Ni chredir bod adeiladau ffydd yn gofyn am ffi mynediad (er bod llawer yn gofyn o bosib am rodd). Serch hynny, mae'n bosibl gwneud amcangyfrif damcaniaethol o gyfanswm y ffioedd mynediad y byddai twristiaid yn eu talu i gymunedau ffydd pe baen nhw'n parhau i ymweld yn eu niferoedd presennol, ond yn talu £1, £2 a £3 am fynediad i adeiladau Gradd II, II* ac I yn eu tro, yn unol â'r eglurhad yn Atodiad 6. Mae hyn yn caniatáu peth ystyriaeth ar gyfer budd economaidd adeiladau ffydd i'r economi lleol yn rhinwedd eu gweithgarwch mewn prynu nwyddau a gwasanaethau a chyflogi staff.

Siart 19. Cyfrannau adeiladau rhestredig




Siart 20. Cymunedau ffydd yn ôl dyddiad sefydlu



## Presenoldeb yn y gymuned leol

Mae llawer o gymunedau ffydd wedi cynnal presenoldeb yn eu cymunedau lleol ers canrifoedd, mae rhai newydd gyrraedd yn ddiweddar.

Mae Siart 20 ar y dudalen gynt yn dangos y dyddiadau a ddechreuodd cymunedau ffydd yn eu cymunedau lleol, yn ôl canrifoedd. Mae parhad presenoldeb sawl eglwys a gafodd eu sefydlu yn yr oes Geltaidd yn amlwg, yn ogystal â'r twf yn yr Eglwys ar ôl y mileniwm cyntaf i mewn i'r Oesoedd Canol. Serch hynny, mae ychydig o dan hanner cymunedau ffydd yng Nghymru yn eglwysi sydd wedi cael eu sefydlu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae tabl 6 yn dangos dyddiadau cyntaf, olaf a chanolrifol y presenoldeb cyntaf yn ôl ffydd ac enwad Cristnogol. (Mae blwyddyn 1840 yn golygu bod hanner y cymunedau ffydd wedi dechrau cyn y flwyddyn honno, a hanner ar ôl hynny.) Tra bod mwyafrif y cymunedau nad ydynt yn rhai Cristnogol a atebodd i'r arolwg hwn yn ddyfodiaid eithaf newydd, mae nifer bach wedi bod yng Nghymru ers sawl degawd. Cafodd y mosg cyntaf ym Mhrydain ei gofnodi yng Nghaerdydd yn 1860, ac agorodd y brif synagog gyntaf yng Nghaerdydd ym 1898 (mae'r adeilad bellach yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill).

### Tabl 6. Dyddiadau sefydlu yn ôl ffydd ac enwad Cristnogol

| | Blwyddyn gynharaf | Blwyddyn ddiweddaraf | Blwyddyn ganolrifol |
|---|---|---|---|
| **Crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol** | | | |
| Bahá'í | 1948 | 1979 | 1957 |
| Bwdhaidd | 1992 | 1992 | 1992 |
| Hindwaidd | 1973 | 1996 | 1983 |
| Islamaidd (Mwslimaidd) | 1860 | 2002 | 1975 |
| Iddewig | 1948 | 2004 | 1976 |
| **Enwadau Cristnogol** | | | |
| Annibynwyr | 1553 | 1985 | 1840 |
| Bedyddwyr | 1630 | 2004 | 1860 |
| Yr Eglwys yng Nghymru | 400 | 1996 | 1400 |
| Methodistiaid | 1750 | 1991 | 1878 |
| Yr Eglwys Gatholig | 350 | 1975 | 1876 |
| Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig | 1200 | 1995 | 1877 |
| Presbyteriaid Cymru | 1650 | 2000 | 1850 |
| Enwadau Diweddarach | 1800 | 2005 | 1947 |
| Cristnogol Arall | 1650 | 2007 | 1940 |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r holiadur yn unig.

# 10. Twristiaeth a gynhyrchwyd gan gymunedau ffydd

Mae presenoldeb adeiladau ffydd o ddiddordeb pensaernïol yn amlwg yn annog twristiaeth i'r ardaloedd lle maen nhw wedi'u lleoli. Mae'r rhan helaethaf o dwristiaid ffydd yn cael eu derbyn gan yr adeiladau rhestredig wedi'u rheoli gan yr enwadau Cristnogol hynaf, yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig. Serch hynny, mae nifer o enwadau eraill yn denu tua 10,000 neu fwy o ymwelwyr y flwyddyn (Tabl 6) ac amcangyfrif y cyfanswm yw dros ddwy filiwn a hanner.[9]

Mae llawer o dwristiaid yn ymweld â Chymru oherwydd hanes crefyddol ei hadeiladau, ar wahân i'w teilyngdod pensaernïol. Er enghraifft, mae'r arolwg yn dangos bob blwyddyn mae tua 200 o Gristnogion o Gorea yn ymweld ag Eglwys Hanover yn Llanofer, ger y Fenni, i anrhydeddu bywyd Robert Jermaine Thomas, cenhadwr Cristnogol Protestannaidd yn gweithio gyda Chymdeithas Genhadol Llundain, a gafodd ei ferthyru yn eu gwlad ym 1866. Mae llawer mwy'n ymweld â Chapel Moriah yng Nghasllwchwr i gofio Diwygiad 1904.

### Tabl 7. Twristiaid a dderbyniwyd gan gymunedau ffydd

| | Amcangyfrifon blynyddol |
|---|---|
| **Crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol** | |
| Bwdhaidd | 200 |
| Hindwaidd | 900 |
| Islamaidd (Mwslimaidd) | 4,100 |
| Iddewig | 200 |
| | |
| **Enwadau Cristnogol** | |
| Annibynwyr | 50,000 |
| Bedyddwyr | 63,300 |
| Yr Eglwys yng Nghymru | 1,999,300 |
| Methodistiaid | 37,100 |
| Yr Eglwys Gatholig | 323,900 |
| Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig | 14,800 |
| Presbyteriaid Cymru | 67,500 |
| Enwadau Diweddarach | 8,600 |
| Cristnogol Arall | 11,800 |
| **Pob enwad Cristnogol** | 2,576,100 |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon wedi'u talgrynnu i'r boblogaeth gyfan.


# 11. Cefnogaeth i'r iaith Gymraeg

Mae cymunedau ffydd, yn enwedig eglwysi, yn cefnogi'r iaith Gymraeg mewn nifer o ffyrdd. Mae dau enwad Cristnogol, yr Annibynwyr a Phresbyteriaid Cymru, yn cynnal eu busnes yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae enwad cyfunedig y Bedyddwyr yn cynnwys Synod Cymreig Undeb Bedyddwyr Cymru. Mae enwad y Methodistiaid yn cynnwys synod Cymreig. Mae gwaith yn y gorffennol wedi awgrymu mai'r Gymraeg yn unig sy'n cael ei defnyddio mewn gwasanaethau mewn traean o'r eglwysi yng Nghymru, ac yn rhannol mewn hanner ohonyn nhw.[10]

Mae'r arolwg presennol yn cael ei hynodi gan y ffaith bod 29% o atebion yn y Gymraeg. Ar gyfer yr Annibynwyr, roedd 71% o atebion yn y Gymraeg, 58% ar gyfer Presbyteriaid Cymru a 33% ar gyfer yr enwad Bedyddwyr cyfunedig.

Ar ben hynny, mae sawl eglwys Gristnogol yn cefnogi defnydd yr iaith Gymraeg o fewn y gymuned ehangach. O'r astudiaeth, gellir amcangyfrif bod tua 130 o eglwysi'n cymryd rhan mewn rhedeg dosbarthiadau Cymraeg, mae 230 yn cynnig gweithgareddau i bobl sy'n siarad Cymraeg, ac mae 420 yn cymryd rhan mewn digwyddiadau iaith Gymraeg eraill. Cyfanswm yr eglwysi sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r pedwar maes hwn yw tua 800. (Siart 4.3).

Siart 21. Cymunedau ffydd sy'n cynnig cefnogaeth i'r iaith Gymraeg




Amcangyfrifon i'r boblogaeth gyfan

# 12. Amcangyfrifon economaidd o gyfraniad cymunedau ffydd

Fel yr esbonnir yn fwy manwl yn Atodiad 6, mae modd deillio amcangyfrif economaidd rhannol o gyfraniad cymunedau ffydd i gymdeithas waraidd fel cyfanswm pum cydran:

- Gwaith gwirfoddol wedi'i drefnu gan gymunedau ffydd
- Staff cyflogedig yn trefnu gwasanaethau i'r gymuned ehangach
- Yr ystafelloedd ac adeiladau sydd ar gael i'r cyhoedd
- Twristiaeth wedi'i chynhyrchu gan gymunedau ffydd
- Gwerth mynediad am ddim i adeiladau cymunedau ffydd

Gan ddilyn gweithdrefnau safonol CGGC, mae oriau gwaith gwirfoddol wedi'i drefnu gan gymunedau ffydd i wasanaethu eu cymunedau lleol yn cael eu prisio yn nhermau'r gyfradd gyflog fesul awr ar gyfartaledd yng Nghymru, £11.57. Gan gymryd yn ganiataol bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu am 48 wythnos y flwyddyn, amcangyfrif y gwerth yw:

Oriau gwaith gwirfoddol x 48 x £11.57 ................................................................ =£43.8M

Ar gyfer oriau staff sy'n cael eu cyflogi i drefnu gwasanaethau i'r gymuned ehangach, mae'r un gyfradd gyflog fesul awr yn cael ei defnyddio, ar draws y flwyddyn gyfan. Er mwyn caniatáu am wariant arall o ganlyniad i gyflogi staff, mae'r canlyniad yn cael ei luosi gan 1.5, gan roi amcangyfrif o werth o:

Oriau gwaith cyflogedig x 52 x £11.57 x 1.5 ......................................................... =£20.8M

Mae gwerth twristiaeth wedi'i chynhyrchu gan adeiladau cymunedau ffydd yn cael ei amcangyfrif fel cyfanswm nifer y twristiaid a dderbyniwyd, wedi'i luosi gan 0.4 (er mwyn caniatáu am y ffaith y byddai llawer ohonyn nhw wedi ymweld â'r ardal am resymau eraill) wedi'i luosi gan wariant ar gyfartaledd ymwelwyr dydd yng Nghymru, £11.73, sy'n rhoi:

Cyfanswm nifer y twristiaid a dderbyniwyd x 0.4 x £11.73 ................................... =£12.1M

Nid yw adeiladau ffydd yng Nghymru'n codi ffi am fynediad. Gan gymryd yn ganiataol ffioedd mynediad sylfaenol o £3 ar gyfer adeiladau Gradd I, £2 ar gyfer Gradd II* a £1 ar gyfer Gradd II, mae'n cynhyrchu'r ffigwr:

Twristiaid a dderbyniwyd gan adeiladau rhestredig x ffioedd a ildiwyd .................. =£6.3M

Mae cymunedau ffydd yn cyflenwi ystafelloedd ac adeiladau i'w cymunedau lleol, yn aml ar brisiau sydd yn bell o dan werth y farchnad. Er bod hyn yn aml yn cynrychioli budd economaidd sylweddol, mae'n anodd ei meintoli ac mae heb ei gynnwys yma. Y ddwy elfen sy'n cael eu cyfrif yw ystafelloedd ac adeiladau wedi'u cyflenwi am ddim i fudiadau cymunedol neu gyhoeddus, ac ystafelloedd ac adeiladau sy'n cael eu cyflenwi fel rhan o wasanaethau sy'n cael eu cynnig i'r gymuned. Mae'r ddau yn cael eu prisio'n £11.29 fesul awr ystafell, sy'n rhoi'r amcangyfrifon canlynol:

Oriau ystafell am ddim i fudiadau annibynnol x £11.29 ......................................... =£2.3M

Oriau ystafell wedi'u cyflenwi fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth x £11.29 ........ =£17.1M

Total of the above........................................................................ = £102.5M

# 13. Cysylltiad â'r llywodraeth

Gall fod gan gymunedau ffydd gysylltiad â'r llywodraeth mewn sawl ffordd, ac mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar dair ohonyn nhw'n unig: derbyn cyllid cyhoeddus, cyfranogiad mewn mentrau adfywio, a chyfranogiad mewn Strategaethau Cymunedol lleol. Mae gwybodaeth ystadegol gryno'n cael ei darparu isod. Hefyd, darparodd cannoedd o gymunedau ffydd sylwadau ysgrifenedig, yn aml rhai hirfaith, am eu profiad o gael neu ddefnyddio cyllid cyhoeddus, neu gael eu gwrthod, ac ar y ffyrdd iddyn nhw chwarae rhan ar hyn o bryd wrth weithio â'r llywodraeth. Gan nad oes digon o le i ganiatáu am grynodeb digonol o'r sylwadau hyn, byddan nhw'n cael eu cadw ar gyfer cyhoeddiad olynol.

## Cyllid cyhoeddus

Mae cymunedau ffydd yn cyllido eu hunain gan fwyaf, a dim ond 27% a nododd iddyn nhw dderbyn unrhyw gyllid o ffynonellau cyhoeddus.

O'r rheiny sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, adroddodd rhai cymunedau ffydd iddyn nhw dderbyn cyllid oddi wrth chwech neu ragor o ffynonellau gwahanol, tra bod y mwyafrif yn sôn am un neu ddwy'n unig. CADW oedd y gronfa y cafwyd sôn amdani amlaf, tra bod niferoedd sylweddol hefyd yn sôn am Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Deddf Eglwysi Cymru, a mathau amrywiol o gyllid awdurdodau lleol a Chynulliad Cymru. Trwy hepgor hyd yn oed yr ymddiriedolaethau elusennol y gwnaeth llawer sôn amdanynt, yn gyfan gwbl, mae'n ymddangos bod cymunedau ffydd yn manteisio ar fwy nag ugain ffrwd gyllido wahanol. Dywedodd niferoedd sylweddol o gymunedau ffydd iddyn nhw fethu â llwyddo denu unrhyw fath o gyllid grantiau, tra bod eraill wedi dweud iddi fod yn well ganddyn nhw godi arian o'u ffynonellau eu hunain.


## Cysylltiad â mentrau adfywio'r Llywodraeth a Strategaethau Cymunedol lleol

Gofynnwyd i gymunedau ffydd a oedden nhw'n cymryd rhan mewn unrhyw fentrau adfywio'r Llywodraeth neu fentrau datblygiad cymunedol neu economaidd yn eu cymuned leol. Tra bod llawer o'r atebwyr yn ansicr am yr ateb i'r cwestiwn yma, mae'n cael ei amcangyfrif bod 290 yn cymryd rhan (Siart 22).

Ar ben hynny, mae'n cael ei amcangyfrif bod dros 900 o gymunedau ffydd yn ymwybodol o'u Strategaeth Gymunedol leol (mentrau i alluogi awdurdodau lleol i weithio gyda busnesau lleol a mudiadau cymunedol a gwirfoddol lleol wrth iddyn nhw baratoi eu cynllun cymunedol). Mae dros 450 wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan ac mae dros 300 yn cymryd "rhan weithredol".

Yn gyfan gwbl, mae tua 500 o gymunedau ffydd naill ai'n ystyried eu bod nhw'n cymryd rhan mewn mentrau adfywio'r Llywodraeth, neu eu bod nhw'n cymryd "rhan weithredol" yn eu Strategaeth Gymunedol leol. Mae ychydig o dan 100 yn cyfeirio at y ddau fath o gyfraniad.

Siart 22. Cymunedau ffydd yn ôl cyfraniad at eu Strategaeth Gymunedol leol




Amcangyfrifon i'r boblogaeth gyfan

# 14. Amcangyfrifon rhanbarthol

Mae'r lefel uchel o ymateb yn caniatáu dadagregu llawer o'r amcangyfrifon yn ôl sir, neu awdurdod unedol. Mae colofn gyntaf Tabl 8 yn cynnwys ystadegau poblogaeth swyddogol, tra bod gweddill y colofnau'n deillio o'r arolwg.

### Tabl 8. Amcangyfrifon dethol yn ôl sir (awdurdod unedol)

| | Amcangyfrifon poblogaeth swyddogol (miloedd) | Nifer cymunedau ffydd | Poblogaeth yn bresennol yn y gwasanaeth fwyaf (%) | Gwirfoddolwyr wedi'u trefnu gan gymunedau ffydd | Cymunedau ffydd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg[a] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod unedol** | | | | | |
| Blaenau Gwent | 69 | 82 | 24.6 | 1,180 | 3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 133 | 105 | 10.2 | 1,230 | 23 |
| Caerffili | 171 | 121 | 7.4 | 1,110 | 12 |
| Caerdydd | 318 | 191 | 14.4 | 4,950 | 25 |
| Sir Gaerfyrddin | 178 | 405 | 19.7 | 3,750 | 112 |
| Ceredigion | 77 | 232 | 28.1 | 1,960 | 75 |
| Conwy | 111 | 164 | 16.4 | 2,550 | 40 |
| Sir Ddinbych | 96 | 163 | 20.4 | 2,080 | 63 |
| Sir y Fflint | 150 | 111 | 11.4 | 1,110 | 23 |
| Gwynedd | 118 | 312 | 19.9 | 2,550 | 100 |
| Ynys Môn | 69 | 195 | 19.0 | 1,070 | 51 |
| Merthyr Tudful | 56 | 59 | 12.5 | 610 | 10 |
| Sir Fynwy | 88 | 111 | 17.8 | 1,320 | 4 |
| Nedd Port Talbot | 137 | 122 | 8.9 | 1,020 | 13 |
| Casnewydd | 140 | 88 | 11.4 | 1,470 | 7 |
| Sir Benfro | 117 | 239 | 22.7 | 2,150 | 49 |
| Powys | 131 | 366 | 25.3 | 2,750 | 71 |
| Rhondda Cynon Taf | 234 | 172 | 7.4 | 1,360 | 23 |
| Abertawe | 227 | 233 | 14.1 | 3,010 | 44 |
| Bro Morgannwg | 123 | 73 | 8.0 | 960 | 8 |
| Torfaen[b] | 91 | 55 | 7.4 | 590 | 2 |
| Wrecsam | 131 | 120 | 10.6 | 1,210 | 23 |
| Arall[c] | | 201 | | 2,350 | 23 |
| Cyfanswm | 2,966 | 3,920 | 15.3 | 42,340 | 804 |

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006; amcangyfrifon o'r arolwg. Efallai na fydd yr amcangyfrifon wedi'u talgrynnu'n dod i'r cyfansymiau.

Fesul pen y boblogaeth, mae rhai o'r ardaloedd gwledig yn sefyll allan fel meddu ar niferoedd cymharol uchel o gymunedau ffydd, a hefyd yn trefnu niferoedd cymharol uchel o wirfoddolwyr i wasanaethu'r gymuned leol.

## Tabl 8 (parhad) Effaith economaidd yn ôl sir (awdurdod unedol)

| | Amser gwirfoddolwyr | Amser staff cyflogedig | Anheddau a ddarperir | Twristiaeth a ffioedd a ildiwyd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | £000's | | |
| **Awdurdod unedol** | | | | | |
| Blaenau Gwent | 990 | 1,090 | 510 | 6 | 2,590 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,250 | 1,070 | 870 | 129 | 3,320 |
| Caerffili | 1,810 | 790 | 570 | 42 | 3,210 |
| Caerdydd | 5,200 | 3,150 | 1,900 | 630 | 10,870 |
| Sir Gaerfyrddin | 4,010 | 2,230 | 1,560 | 388 | 8,180 |
| Ceredigion | 1,690 | 430 | 660 | 183 | 2,960 |
| Conwy | 2,090 | 1,220 | 1,070 | 173 | 4,550 |
| Sir Ddinbych | 2,060 | 510 | 700 | 272 | 3,550 |
| Sir y Fflint | 940 | 300 | 530 | 543 | 2,310 |
| Gwynedd | 2,460 | 740 | 1,110 | 551 | 4,860 |
| Ynys Môn | 960 | 100 | 450 | 409 | 1,920 |
| Merthyr Tudful | 1,210 | 360 | 410 | 18 | 1,990 |
| Sir Fynwy | 1,410 | 250 | 920 | 248 | 2,830 |
| Nedd Port Talbot | 930 | 630 | 520 | 456 | 2,530 |
| Casnewydd | 1,760 | 960 | 700 | 153 | 3,570 |
| Sir Benfro | 2,060 | 890 | 1,100 | 9,745 | 13,800 |
| Powys | 2,800 | 430 | 850 | 939 | 5,020 |
| Rhondda Cynon Taf | 1,440 | 1,950 | 940 | 68 | 4,400 |
| Abertawe | 2,880 | 1,310 | 1,450 | 190 | 5,830 |
| Bro Morgannwg | 1,080 | 350 | 540 | 93 | 2,050 |
| Torfaen[b] | 710 | 150 | 250 | 17 | 1,130 |
| Wrecsam | 1,430 | 440 | 540 | 506 | 2,910 |
| Arall[c] | 2,690 | 1,420 | 1,290 | 2,698 | 8,100 |
| Cyfanswm | 43,840 | 20,770 | 19,430 | 18,460 | 102,500 |

a. Cymunedau ffydd yn ymwneud ag un o'r gweithgareddau a ddangosir yn Siart 21.
b. Yn seiliedig ar ddim ond 27 ymateb: mae pob amcangyfrif yn seiliedig ar 30 neu ragor o ymatebion.
c. Heb ei briodoli yn ôl sir: mae rhai cymunedau ffydd wedi'u lleoli dros y ffin yn Lloegr; weithiau doedd yr union leoliad ddim yn hysbys.

# 15. Diweddglo

Nod yr adroddiad hwn oedd darparu gwybodaeth ystadegol mewn maes heb ei archwilio rhyw lawer yn y gorffennol: cyfraniad cymunedau ffydd i'w cymunedau ehangach.

Diolch i arbenigedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a chefnogaeth gref yr holl gymunedau ffydd yng Nghymru, mae wedi bod yn bosibl cynnal arolwg hynod o lwyddiannus, i ffurfio sail i'r adroddiad hwn. Gellir gweld y prif gasgliadau yn y Crynodeb Gweithredol ar ddechrau'r ddogfen.

Mae'r prif feysydd dan sylw wedi cynnwys cyfraniad y gwirfoddolwyr a staff cyflogedig wedi'u trefnu gan gymunedau ffydd i wasanaethu eu cymunedau lleol, yn ogystal â'r ystafelloedd ac adeiladau maen nhw'n eu darparu, a'r twristiaid maen nhw'n eu denu. Mae gwerth economaidd cyfan y cyfraniad hwn wedi cael ei amcangyfrif gan dechnegau safonol i fod dros £100M y flwyddyn, ac mae rhan bwysicaf y cyfraniad hwn yn cael ei chyfrif gan oriau 42,000 o wirfoddolwyr. Dyma wirfoddolwyr sy'n gweithio ar brosiectau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach, yn hytrach na gweithgareddau sy'n cael eu rhedeg ar gyfer y cymunedau ffydd eu hunain.

Nid yw pob agwedd o gyfraniad cymunedau ffydd wedi cael eu trafod. Er enghraifft, mae gan bob un o'r prif grefyddau ethos o annog eu haelodau i gynnig gwasanaeth i gymdeithas fel unigolion, er enghraifft trwy eu busnesau, eu swyddi, fel cymdogion ac fel aelodau cymdeithas waraidd. Mae pob cymuned ffydd yn darparu cymorth i'w haelodau eu hunain, sydd eu hunain yn aelodau o'u cymunedau lleol, a chafodd sawl mudiad gwirfoddol eu sefydlu gan gymunedau ffydd ond bellach yn gweithredu'n annibynnol rhagddynt. Gobeithio y bydd modd trafod o leiaf rai o'r meysydd hyn mewn astudiaethau yn y dyfodol.

Am y tro, dylai'r adroddiad hwn nid yn unig gynyddu ein dealltwriaeth o rôl cymunedau ffydd, ond hefyd hwyluso cydweithio mwy hysbys rhwng cymunedau ffydd, y llywodraeth a phob corff arall sy'n gweithio i wella ansawdd bywyd yng Nghymru.

# Ôl-nodiadau

1. Mae'n bosibl bod rhai mudiadau'n cael eu trafod dim ond yn rhannol, megis Cymdeithas Gatholig Vincent de Paul.
2. Focus on Religion, cyhoeddwyd ar-lein gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Hydref 2006
3. Amcangyfrifon swyddogol yn seiliedig ar Gyfrifiad 2001.
4. Cymerir y ffigyrau hyn o Faith in England's Northwest, Awdurdod Datblygu'r Gogledd Orllewin, 2003.
5. Weithiau cyfunodd gwybodaeth ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru fwy nag un plwyf, ac weithiau cyfeiriodd y wybodaeth at eglwysi unigol o fewn plwyfi.
6. Lle mae eglwysi wedi grwpio ar y cyd ag eglwysi eraill ar draws ffiniau enwadau, mae'r wybodaeth yn yr holiadur wedi cael ei phennu i'r eglwys sy'n gyfrifol am gwblhau'r holiadur. Chafodd dim addasu ei wneud i amcangyfrif y gyfradd ymateb, nac i'r gweithdrefnau amcangyfrif.
7. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ffigyrau ar gyfer niferoedd cynulleidfaoedd a chymunedau ffydd felly yn hafal i'r gwahaniaeth rhwng niferoedd y cynulleidfaoedd a phlwyfi yn yr Eglwys yng Nghymru.
8. Mewn geiriau eraill, roedd hanner o'r 69% yn cymryd rhan mewn llai na 5 maes gwahanol o weithgarwch ac roedd hanner yn cymryd rhan mewn mwy na 5.
9. Roedd yr holiadur yn defnyddio'r gair "tourist" yn hytrach na "visitor" yn y Saesneg. Gall hyn esbonio pam mae'r ffigyrau yn yr adroddiad hwn ychydig yn is na'r ffigyrau a gafodd eu cynhyrchu gan Rwydwaith Twristiaeth Eglwysi Cymru sy'n cyfeirio at "visitors" yn y Saesneg.
10. Gweler *Yr Her I Newid: Canlyniadau Arolwg Eglwysi Cymru*, ar gael oddi wrth Gynghrair Efengylaidd Cymru.

# Atodiad 1. Y crefyddau, ac enwadau a grwpiau cyswllt Cristnogol, dan sylw yn yr astudiaeth hon

## Y crefyddau dan sylw

Mae'r crefyddau dan sylw yn yr astudiaeth hon yn cynnwys Bahá'í, Bwdhaidd, Cristnogol, Hindŵaidd, Islamaidd (Mwslimaidd), Iddewig, a Sikhaidd. Dyma'r saith ffydd sy'n cael eu cynrychioli ar hyn o bryd ar Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru.

Mae ffocws yr astudiaeth hon ar wasanaethau i'r gymuned ehangach sy'n cael eu trefnu, eu rhedeg neu eu rheoli gan gynulleidfaoedd addoli o blith y crefyddau hyn.

## Crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol

Mae'r wybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno ar wahân i bob un o'r crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol, heb unrhyw isrannu.

## Cynulleidfaoedd a phlwyfi Cristnogol

Mae'r eglwysi a chapeli Cristnogol yng Nghymru'n cael eu rhannu'n nifer mawr o enwadau a grwpiau cyswllt, gan gynnwys y 34 canlynol:

Adfentyddion y Seithfed Dydd
Annibynwyr (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)
Apostolig
Assemblies of God
Byddin yr Iachawdwriaeth
Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr)
Cynulleidfaoedd y Brodyr
Church of God of Prophecy
Eglwys Corea
Eglwys Persia
Eglwys y Nasareaid
Elim Pentecostal
Evangelical Fellowship of Congregational Churches
Fellowship of Independent Evangelical Churches
International Gospel Outreach Churches
Iranian Fellowship
Lutheriaid
Methodistiaid (Synodau Cymru a Lloegr)
Ministry Without Borders Churches
New Day International Churches
New Frontiers
New Testament Church of God
Pioneer Churches
Undeb Bedyddwyr Cymru (Synodau Cymru a Lloegr)
Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr
Uniongred
Y Gynghrair Gynulleidfaol (Cyswllt a Digyswllt)

Y Gymdeithas o Eglwysi Efengylaidd yng Nghymru
Yr Eglwys Arabaidd
Yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru
Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Yr Eglwys Gatholig
Yr Eglwys Gristnogol Tsieineaidd
Yr Eglwys yng Nghymru

Mae llawer o'r enwadau neu grwpiau cyswllt hyn yn ganghennau i grwpiau ehangach, gyda phencadlys yn Lloegr, neu hyd yn oed yn rhywle arall. Mewn sawl achos (gan gynnwys Assemblies of God, y Methodistiaid a Byddin yr Iachawdwriaeth) mae gan yr enwad weinyddiaeth ranbarthol wahanol ar gyfer Gogledd a De Cymru. Weithiau, mae'r eglwysi yng Ngogledd Cymru'n ffurfio rhan o uned ddaearyddol sy'n gorgyffwrdd â Lloegr gyda phencadlys rhanbarthol yn Lloegr (er enghraifft, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr a'r Evangelical Fellowship of Congregational Churches). Mae'r Eglwys yng Nghymru, sef Talaith o fewn y Cymundeb Anglicanaidd byd-eang, yn cael ei rhannu'n chwe esgobaeth, gyda gweinyddiaethau ar wahân: Bangor, Llandaf, Mynwy, Llanelwy, Tyddewi, ac Abertawe ac Aberhonddu.

Ar ben yr uchod, ceir nifer sylweddol o eglwysi a chapeli amhleidiol, neu annibynnol, heb gysylltiad ag unrhyw un o'r grwpiau uchod.

Mae nifer o sefydliadau ambarél yn gwasanaethu eglwysi yng Nghymru, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn), Cynghrair Efengylaidd Cymru, Mudiad Efengylaidd Cymru a Gweini. Gall fod cynulleidfa eglwys unigol, wrth gwrs, yn perthyn i unrhyw un, neu yn wir i nifer o'r mudiadau hyn, neu fod yn annibynnol rhagddyn nhw i gyd.

Gellir dod o hyd i'r rhestr fwyaf cynhwysfawr o fanylion cyswllt i'r grwpiau a mudiadau eglwysig hyn ar wefan Cynghrair Efengylaidd Cymru, ar http://www.eauk.org/wales/welshchurches/diversity/denominations.cfm.

Yn yr Eglwys yng Nghymru, mae cynulleidfaoedd yn cael eu cysylltu'n gryf iawn ar lefel y plwyf. Ar ben hynny, yn enwedig mewn ardaloedd gyda dwysedd poblogaeth isel, gall dau neu ragor o blwyfi weithio'n agos iawn gyda'i gilydd. At ddibenion yr arolwg hwn, model y plwyf yw model yr Eglwys yng Nghymru gan bennaf, yn cynnwys un neu nifer o gynulleidfaoedd, yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned ehangach.

Yn ogystal â chydweithio â'i gilydd yn y naill enwad neu'r llall, mae cynulleidfaoedd Cristnogol yn gweithio'n fwyfwy gyda'i gilydd ar draws ffiniau enwadol, mewn partneriaethau anffurfiol, mudiadau Cytûn lleol, Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol (LEPs) a grwpiau Gweini lleol. Yn yr astudiaeth hon ni fu'n bosibl ystyried hyn yn llwyr. Mae holiaduron a dderbyniwyd oddi wrth gynulleidfa unigol ynglŷn â gweithgareddau ar y cyd â nifer o gynulleidfaoedd gwahanol wedi cael eu trin i gyfeirio'n unig at y gynulleidfa sy'n dychwelyd y ffurflen.

Mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu cyflwyno ar gyfer naw grŵp Cristnogol; Annibynwyr, Bedyddwyr, yr Eglwys yng Nghymru, Methodistiaid, yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Presbyteriaid Cymru, Enwadau Diweddarach, a Christnogol Arall. Mewn rhai achosion, mae'r rhain yn cyfateb ag enwadau go iawn, tra bod eraill yn gyfuniadau nifer o grwpiau (Tabl A1.1). Mae'r grŵp Enwadau Diweddarach yn cynnwys nifer o enwadau a grwpiau cyswllt sydd wedi eu sefydlu yn y ganrif ddiwethaf, ar y cyd â sawl eglwys Gristnogol ethnig wedi'u sefydlu'n gymharol ddiweddar yng Nghymru. Mae'r grŵp Cristnogol Arall yn annhebyg iawn o ran ei gynnwys.

## Tabl A1. Enwadau Cristnogol a ddefnyddiwyd yn y siartiau a thablau

| Grwp cyflwyniad, neu "enwad" | Gwir enwad, grwp cyswllt neu grwp |
|---|---|
| Annibynwyr | Annibynwyr (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) |
| Bedyddwyr | Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr<br>Undeb Bedyddwyr Cymru (Synodau Cymru a Lloegr) |
| Yr Eglwys yng Nghymru | |
| Methodistiaid | |
| Yr Eglwys Gatholig | |
| Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig | |
| Presbyteriaid Cymru | Yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru |
| Enwadau Diweddarach | Apostolig<br>Assemblies of God<br>Church of God of Prophecy<br>Eglwys Corea<br>Eglwys Persia<br>Eglwys y Nasareaid<br>Elim Pentecostal<br>Fellowship of Independent Evangelical Churches<br>Iranian Fellowship<br>International Gospel Outreach Churches<br>Ministry Without Borders Churches<br>New Day International Churches<br>New Frontiers<br>New Testament Church of God<br>Pioneer Churches<br>Y Gymdeithas o Eglwysi Efengylaidd yng Nghymru<br>Yr Eglwys Gristnogol Tsieineaidd<br>Yr Eglwys Arabaidd |
| Cristnogol Arall | Adfentyddion y Seithfed Dydd<br>Byddin yr Iachawdwriaeth<br>Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr)<br>Cynulleidfaoedd y Brodyr<br>Evangelical Fellowship of Congregational Churches<br>Lutheriaid<br>Uniongred<br>Y Gynghrair Gynulleidfaol (Cyswllt a Digyswllt) |

# Atodiad 2. Yr holiadur

Mae'r holiadur sylfaenol wedi cael ei atodi. Mae'n seiliedig ar yr holiadur a gafodd ei ddefnyddio yn yr astudiaeth gynharach ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru (*Faith in England's Northwest*, Awdurdod Datblygu'r Gogledd Orllewin, 2003) ac mae'n elwa nid yn unig o brofiad yr astudiaeth honno ond hefyd o ymgynghoriad a buddgyfranogwyr ac unigolion ar draws Cymru. Yn enwedig, cafodd ei drafod ag arweinyddion ffydd ac enwadau, yn unigol ac yng nghyd-destun Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru, gydag aelodau Cynulliad Cymru a'u Gwasanaeth Ymchwil, gyda staff Llywodraeth Cynulliad Cymru, â'r Grŵp Ymgynghorol ar gyfer yr astudiaeth ac â Bwrdd Gweini. Cafodd ei beilota gydag ugain cynulleidfa ym mis Mawrth 2007 a chafodd ei newid yn sgil eu hymatebion.

Cafodd yr holiadur ei baratoi ar ddwy ffurf; un ar gyfer y cymunedau ffydd Cristnogol, yn cynnwys geiriau megis "eglwys" a "chapel", wedi'i derfynu ar 29 Mai, a'r llall ar gyfer y crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol, wedi'i derfynu ar 8 Mehefin, lle cafodd y term "cynulleidfa" ei ddefnyddio. Yr ail fersiwn yw'r un sydd wedi cael ei atodi.

Cafodd pob un o'r holiaduron ei gynhyrchu yn Saesneg ac yn Gymraeg ar bapur, a chafodd fersiwn Cymraeg/Saesneg cyfunedig ei osod ar y we er mwyn ei lenwi'n electronig.

Ystyriwyd am yr angen i addasu holiadur y crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol ymhellach i leddfu pryderon crefyddau penodol, ac am gynhyrchu'r fersiynau gwe cyfatebol, ond yn y diwedd doedd dim angen hyn.

# Counting for our Communities / Yn Cyfrif i'n Cymunedau

## Allwn ni eich helpu? Cysylltwch â ni:
## ☎ 0800 2888 329 neu ✉ help@wcva.org.uk

**Q1** **I ddefnydd Gweini a WCVA yn unig : (Rhif Cyfeirnod)** ☐

**Rhowch bras amcan ble nad ydych chi'n gwybod yr ateb yn union - mae ffigyrau bras yn mwy defnyddiol i ni na gweigion!**

### Eich cynulleidfa

**Q2** **Dywedwch wrthym beth yw eich enwad neu pa fath o gynulleidfa ydyw**

☐

**Q3** **Disgrifiwch yr ardal mae eich cynulleidfa yn gwasanaethu (e.e. plwyf, cymdogaeth, ward Awdurdod Lleol, pentref, tref, ardal):**

☐

**Q4** **Yn fras, beth oedd cyfanswm y bobl a fynychodd wasanaethau yn eich cynulleidfa wythnos diwethaf? (Unwaith yn unig y dylid cyfrif pob person.)** ☐

**Q5** **Yn fras, pa gyfran o'r uchod oedd mewn oed:**

dan 30 oed................. ☐

rhwng 30 a 65............ ☐

dros 65....................... ☐

**Q6** **Beth oedd uchafswm y bobl a groesawoch i unrhyw un gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gan gynnwys gwyliau arbennig)?** ☐

### Adeiladau

**Q7** **Ydych chi'n addoli mewn adeilad rhestredig?**

Gradd I ............................................... ☐

Gradd II ............................................. ☐

Gradd II*............................................. ☐

Nid yw'n adeilad rhestredig ............... ☐

Ddim yn gwybod.................................. ☐

**Q8** **Yn fras, pryd wnaeth eich cynulleidfa ddechrau addoli yn yr ardal?** [ ]

**Q9** **Ticiwch y blychau sy'n berthnasol ac ystyried eich adeilad/adeiladau chi**

| | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| Ni yw perchenogion yr adeilad ble rydyn ni'n addol | [ ] | [ ] |
| Mae gennym ganolfan gymunedol at y pwrpas | [ ] | [ ] |
| Mae gennym fynediad ar gyfer pobl anabl | [ ] | [ ] |
| Mae gennym system ddolen ar gyfer pobl sydd â theclynnau clywed | [ ] | [ ] |

**Q10** **Ticiwch y blychau priodol i nodi pa ddefnydd y bydd pobl neu grwpiau eraill yn ei wneud o'ch adeiladau**

| | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| Rydyn ni'n rhentu ystafelloedd (neu neuadd) i grwpiau cymunedol, neu ar gyfer gweithgareddau cymunedol (e.e. partïon pen-blwydd) | [ ] | [ ] |
| Rydyn ni'n rhentu ystafelloedd (neu neuadd) i gyrff cyhoeddus (e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, coleg lleol) | [ ] | [ ] |
| Rydyn ni'n rhentu ystafelloedd (neu neuadd) i fudiadau annibynnol (e.e. elusennau, busnesau, AA) | [ ] | [ ] |
| Rydyn ni'n darparu ystafelloedd (neu neuadd) sy'n cael eu defnyddio yn rhad ac am ddim gan fudiadau annibynnol | [ ] | [ ] |
| Yr ydym yn croesawu twristiaid ac ymwelwyr eraill sy'n dod i weld ein hadeilad/adeiladau | [ ] | [ ] |

**Q11** **Os ydych chi yn rhentu allan ystafelloedd, faint o tâl ydych chi'n codi am eich ystafell fwyaf ar gyfartaledd?** £ [ ]

**Q12** **Os ydych chi'n ddarparu ystafelloedd am ddim i fudiadau annibynnol, am faint o oriau defnyddir hwy ar gyfartaledd bob wythnos?**
(Rhowch bras amcan os nad ydych chi'n siwr os gwelwch yn dda. [ ]

**Q13** **Os ydych chi'n croesawu ymwelwyr, yn fras, faint fydd yn ymweld â'ch adeilad bob blwyddyn?** [ ]

## Prosiectau a gweithgareddau sy'n gwasanaethu'ch cymuned

**Q14** **Nodwch a yw'ch cynulleidfa, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi trefnu, cynnal neu reoli unrhyw brosiectau neu weithgareddau ar gyfer y gymuned. Ticiwch bob blwch perthnasol - efallai bod un prosiect yn berthnasol i lawer o feysydd. Nodwch hefyd os ydych yn gobeithio dechrau gweithgareddau eraill yn y dyfodol.** *(Peidiwch â chynnwys gweithgareddau crefyddol fel grwpiau gweddi, unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir yn arbennig ar gyfer eich cynulleidfa chi neu unrhyw fudiadau annibynnol eraill sy'n gweithredu o'ch adeiladau chi.)*

| | *Oes* | *Yn y dyfodol, gobeithio* |
|---|---|---|
| Gweithgareddau cymdeithasol (clwb cinio, bar coffi, digwyddiadau adloniant) | ☐ | ☐ |
| Grŵp rhieni a phlant bach | ☐ | ☐ |
| Paratoi ar gyfer priodas | ☐ | ☐ |
| Cyfoethogi priodas | ☐ | ☐ |
| Sgiliau magu plant | ☐ | ☐ |
| Ymweld ag ysbytai | ☐ | ☐ |
| Ymweld â charchardai | ☐ | ☐ |
| Grŵp meithrin, meithrinfa neu grŵp chwarae | ☐ | ☐ |
| Gwaith plant (dan 14 oed) rheolaidd a digwyddiadau untro | ☐ | ☐ |
| Gwaith ieuenctid (14-25 oed) rheolaidd a digwyddiadau untro | ☐ | ☐ |
| Cefnogaeth i rieni sengl | ☐ | ☐ |
| Cefnogaeth i bobl hŷn | ☐ | ☐ |
| Cefnogaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth | ☐ | ☐ |
| Cefnogaeth ar gyfer pobl sydd gyda salwch tymor hir | ☐ | ☐ |
| Cyngor cwnsela cyffredinol | ☐ | ☐ |
| Gweithgareddau hamdden a hobïau | ☐ | ☐ |
| Canolfan galw heibio | ☐ | ☐ |
| Cegin gawl i bobl ar y stryd | ☐ | ☐ |
| Rhaglen ymwybyddiaeth o alcohol | ☐ | ☐ |
| Rhaglen ymwybyddiaeth o gyffuriau | ☐ | ☐ |
| Cyngor am fyw'n iach | ☐ | ☐ |
| Arian personol | ☐ | ☐ |
| Chwaraeon a ffitrwydd | ☐ | ☐ |
| Addysg/gwerthfawrogi cerddoriaeth/y celfyddydau | ☐ | ☐ |

Hyfforddiant TG ☐ ☐
Sgiliau iaith - Saesneg ☐ ☐
Sgiliau iaith - Cymraeg ☐ ☐
Hyfforddiant ym maes rhifedd ☐ ☐
Hyfforddiant cyflogaeth a phrofiad gwaith ☐ ☐
Cynlluniau hyfforddi ar gyfer swydd ☐ ☐
Gwella'r amgylchedd yn lleol ☐ ☐
Atal troseddu/diogelwch yn y gymuned ☐ ☐
Gwrth-hiliaeth ☐ ☐
Gweithgarwch rhyng-ffydd ☐ ☐
Arall/Eraill ☐ ☐

*Manylwch* ☐

**Q15** **Nodwch a yw'ch cynulleidfa, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi trefnu, cynnal neu** reoli unrhyw brosiectau neu weithgareddau ar gyfer y grwpiau canlynol yn y **gymuned ehangach. Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**
(Peidiwch â chynnwys gweithgareddau crefyddol fel grwpiau gweddi, digwyddiadau a gynhelir yn arbennig ar gyfer eich cynulleidfa chi neu unrhyw fudiadau annibynnol eraill sy'n gweithredu o'ch adeiladau chi.)

Plant bach (0-4 oed) ☐
Plant (5-14 oed) ☐
Pobl Ifanc (15 -25 oed) ☐
Pobl Hŷn ☐
Menywod ☐
Dynion ☐
Pobl sy'n medru'r Gymraeg ☐
Rhieni ☐
Gofalwyr ☐
Pobl ddi-waith ☐
Pobl o Gymuned Lleiafrifoedd Ethnig penodol ☐
Pobl o gymunedau ffoaduriaid ☐
Pobl ag anabledd corfforol neu synhwyraidd ☐
Pobl gyda materion iechyd meddwl ☐
Pobl ag anawsterau dysgu ☐
Pobl gyda problemau cymdeithasol neu ymddygiadol ☐
Pobl gyda salwch tymor hir ☐
Arall/Eraill ☐

*Manylwch* ☐

**Q16 Dros y flwyddyn ddiwethaf, a yw'ch cynulleidfa wedi cymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau diwylliannol canlynol gyda'r gymuned ehangach? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- Cerddoriaeth gorawl ☐
- Cerddoriaeth offerynnol ☐
- Dawns ☐
- Drama ☐
- Celf ☐
- Adrodd barddoniaeth ☐
- Eisteddfodau ☐
- Digwyddiadau eraill yn yr iaith Gymraeg ☐
- Gwyl bentref ☐
- Ffair gymunedol neu sioe amaethyddol ☐
- Arall ☐

*Manylwch*

**Q17 Dros y flwyddyn ddiwethaf, a yw'ch cynulleidfa wedi bod yn gysylltiedig â threfnu unrhyw un o'r gweithgareddau chwaraeon canlynol gyda'r gymuned ehangach?**

- Gemau Pêl-droed ☐
- Gemau Rygbi ☐
- Badminton ☐
- Bowlio ☐
- Pêl-fasged ☐
- Celfyddydau Brwydro ☐
- Ysgol Bêl-droed ☐
- Crwydro ☐
- Dosbarthiadau ymarfer corff ☐
- Hyfforddi Ffitrwydd ☐
- Gemau cardiau i oedolion ☐
- Arall/Eraill ☐

*Manylwch*

**Q18** **Faint o wirfoddolwyr o'ch cynulleidfa sy'n ymwneud â'ch gweithgareddau sy'n gwasanaethu y gymuned ehangach?**

**Q19** **Faint o'r gwirfoddolwyr yma sy'n ymwneud â gweithgareddau ar gyfer plant neu bobl ifanc?**

**Q20** **Ar wythnos gyffredin, am faint o oriau y person bydd eich gwirfoddolwyr yn rhoi i fewn i weithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach?**
*(Rhowch bras amcan os nad ydych chi'n siwr os gwelwch yn dda.)*

*(Nid yw pob gweithgaredd yn cael ei gynnal bob wythnos, felly efallai y bydd yn fwy hwylus gennych adio nifer yr oriau y mae'ch gwirfoddolwyr wedi eu gweithio dros gyfnod o fis, a rhannu'r cyfanswm â phedwar. Os hoffech gael cymorth i ateb y cwestiwn hwn, mae croeso i chi gysylltu â Desg Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu help@wcva.org.uk.)*

**Q21** **Faint o staff sy'n cael eu talu gan eich cynulleidfa i drefnu eich gweithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach?**

Amser llawn..................................................

Rhan-amser..................................................

**Q22** **Faint o'r staff yma sy'n ymwneud â gweithgareddau ar gyfer plant neu bobl ifanc?**

Amser llawn..................................................

Rhan-amser..................................................

*Q23* **Ar wythnos gyffredin, beth yw'r cyfanswm o oriau y person bydd eich staff yn rhoi i fewn er mwyn gwasanaethu'r gymuned ehangach?** *(Rhowch bras amcan os nad ydych chi'n siwr os gwelwch yn dda.)*

Amser llawn..................................................

Rhan-amser..................................................

**Q24** **Faint o ystafelloedd sy'n cael eu darparu gan eich cynulleidfa fel rhan o'r gweithgareddau sy'n gwasanaethu'r cymuned ehangach?**

**Q25** **Ar wythnos gyffredin, beth yw'r cyfanswm o oriau yr ystafell darparwyd ar gyfer gweithgareddau sy'n gwasanaethu'r cymuned ehangach?** *(Rhowch bras amcan os nad ydych chi'n siwr os gwelwch yn dda.)*

**Q26** **Dros y pum mlynedd diwethaf, a yw'ch cynulleidfa wedi sefydlu unrhyw brosiectau sydd bellach yn cael eu cynnal yn annibynnol?**

Ydy .......... ☐ Ddim yn gwybod .......... ☐

Nac ydy.......... ☐ Amgaeir gwybodaeth ychwanegol ... ☐

*Os ydy, rhowch fanylion cryno isod, gan gynnwys faint o staff sy'n derbyn tâl sy'n gysylltiedig yn awr, ac/neu amgaewch wybodaeth am y prosiect.*

## Nawdd Cyhoeddus

**Q27** **A ydy'ch cynulleidfa wedi derbyn unrhyw nawdd cyhoeddus i gefnogi gwasanaethau neu weithgareddau sydd o fudd i'r gymuned ehangach? (e.e. gan CADW, Awdurdod Lleol, Cronfeydd Ewropeaidd, Ymddiriedolaethau Elusennol, y Loteri, Cronfeydd Deddf yr Eglwys yng Nghymru, Cymorth, Cymunedau yn Gyntaf, Nawdd Ewropeaidd Amcan 1, 2 a 3, y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, ayb?)**

Ydym .......... ☐ Nac ydym .......... ☐ Ddim yn gwybod ....... ☐

*Os ydych, dywedwch pa fath o nawdd:*

*Q28* **A oes gennych unrhyw sylwadau y hoffech eu rhannu, yn seiliedig ar eich profiad chi o geisio cael gafael a'r nawdd neu'i ddefnyddio, neu ar gael eich gwrthod gan noddwyr?**

## Ymwneud â Chynlluniau'r Llywodraeth

**Q29** **A ydy'ch cynulleidfa wedi ymwneud â chynlluniau datblygu economaidd, cymunedol neu adfywio Llywodraeth yn eich cymuned leol?**

Ydy ............................. ☐ Nac ydy....................... ☐ Ddim yn gwybod ......... ☐

*Os Ydy, disgrifiwch hynny'n gryno isod*

**Q30** **A ydych wedi ymwneud â'ch Strategaeth Gymunedol leol? Ticiwch yr ymatebion perthnasol.**

(Cynlluniau sy'n galluogi awdurdodau lleol i weithio â busnesau lleol, a mudiadau cymunedol a gwirfoddol, wrth iddynt drefnu eu cynllun cymunedol yw'r Strategaethau Cymunedol - efallai bod gennych chi enw arall ar eu cyfer.)

| | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| a. Yr ydym yn ymwybodol o'r Strategaeth Gymunedol, a'r cyfleoedd a geir wrth ymwneud â hyn. | ☐ | ☐ |
| b. Gofynnwyd i ni gymryd rhan yn y Strategaeth Gymunedol (o bosib fel rhan o gymuned ffydd, neu rwydwaith sector gwirfoddol) | ☐ | ☐ |
| c. Teimlwn ein bod yn rhan weithredol o'r Strategaeth Gymunedol | ☐ | ☐ |

**Oes ganddoch chi unrhyw sylwadau amdano eich ymrwymiad mewn y strategaeth cymuned leol?**

## Gwaith cymorth a Datblygu Tramor (Opsiynol)

**Q31** **Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydy'ch cynulleidfa wedi cyfrannu at brosiectau cymorth a datblygu mewn gwledydd eraill?**

Ydy ........................... ☐ Nac ydy .................... ☐ Ddim yn gwybod ....... ☐

**Q32** **Gallwn ni cysylltu gyda chi ar gyfer gwybodaeth pellach amdano eich cyfraniadau i brosiectau dramor?**

Ydy ........................... ☐ Nac ydy .................... ☐

**DATGANIAD DIOGELU DATA**

**- Dim ond ar gyfer y diben o fesur a dadansoddi cyfraniad cymunedau ffydd at y gymdeithas sifil yng Nghymru y bydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Gweini yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd fel ymateb i'r holiadur hwn.**
**- Ni fydd gwybodaeth am unrhyw unigolyn, nac unrhyw gynulleidfa, yn cael ei throsglwyddo i drydydd partïon heb ganiatâd penodol.**
**- Ni chedwir gwybodaeth bersonol am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau'r prosiect (noder y bydd hyn yn ein galluogi i ailgysylltu â phobl er mwyn cael eglurhad pellach ar ymatebion).**

**EICH MANYLION**

| | |
|---|---|
| Teitl: .................................................. | |
| Enw: .................................................. | |
| Cyfeiriad: .......................................... | |
| Côd post ............................................ | |
| Rhif(au) Ffôn: .................................... | |
| E bost: ............................................... | |
| Enw eich cynulleidf: ........................... | |
| Cyfeiriad eich cynulleidf - (os yw'n wahanol i'r uchod): ............................ | |
| Côd post ............................................ | |

**Nodwch os yw'r datganiadau canlynol yn berthnasol i chi os gwelwch yn dda:**

Mae gennyf ddiddordeb mewn cael cyswllt â grwpiau eraill sy'n seiliedig ar ffydd, y sector gwirfoddol ehangach, a gwasanaethau perthnasol a gynigir gan fy awdurdod lleol.................. ☐
Hoffwn i dderbyn mwy o wybodaeth amdano WCVA................................................................ ☐

**DIOLCH YN FAWR I CHI AM EICH AMSER.**

---

**Dychwelwch yr holiadur at Rhadbost RRJH - GJZT - CSTA, WCVA, Neuadd Morfa, Stryd y Baddon, Y Rhyl, LL18 3EB**

# Atodiad 3. Dosbarthiad yr holiadur a'r ymateb iddo

## Dosbarthiad

Ar gyfer cynulleidfaoedd Cristnogol, y cam cyntaf oedd cysylltu â phencadlys neu â phobl gyswllt ar gyfer pob enwad a grŵp cyswllt sydd wedi cael eu rhestru yn Atodiad 1, gan ofyn am restrau cysylltu ar gyfer eu cynulleidfaoedd a chefnogaeth i annog ymateb. Cafodd ymweliadau personol eu gwneud i bron pob un o'r enwadau mwy eu maint. Mewn rhai achosion, roedd y wybodaeth ar gael ar-lein. Mewn sawl achos arall, cafodd labeli cyfeiriadau eu darparu. Lle roedd hi'n bosibl, (a dyma'r achos ar gyfer y rhan fwyaf o enwadau, gan gynnwys pob un o'r rhai mwy eu maint) cafodd gwybodaeth ei derbyn ar faint y cynulleidfaoedd fel y'u darparwyd i bencadlysoedd yr enwadau yn yr adroddiadau blynyddol perthnasol.

Gyda bron pob achos arall, cafodd holiaduron eu postio gyda chymeradwyaeth i'r holiadur gan berson hŷn yn yr enwad dan sylw. Hefyd cafodd cyfeiriad ei gynnwys at y fersiwn ar-lein. Ym mhob achos, cafodd yr holiadur a'r llythyr eglurhaol eu hanfon yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ar gyfer yr eglwysi annibynnol, neu ddigyswllt, cafodd rhestr ei chrynhoi gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafodd ei chasglu gan Gynghrair Efengylaidd Cymru dros y blynyddoedd, wedi'i hategi gan nifer o gysylltiadau grwpiau Gweini lleol. Tra bod disgwyl bod bron pob un o'r eglwysi annibynnol mwy eu maint wedi cael eu trafod yn y ffordd hon, mae'n cael ei gydnabod bod rhai, yn enwedig yr eglwysi annibynnol llai, wedi cael eu colli.

Lle roedd angen, cafodd y broses bostio ei ail-wneud unwaith er mwyn annog ymateb. Cafodd nifer o gynulleidfaoedd lle roedd disgwyl iddyn nhw fod yn gymharol fawr (50 neu drosodd o aelodau sydd wedi cael eu hadrodd) eu ffonio a'u gwahodd i ddychwelyd yr holiadur. Cafodd copi ychwanegol ei anfon os oedd ei angen.

Dewisodd yr Eglwys yng Nghymru a Byddin yr Iachawdwriaeth ddosbarthu'r holiaduron gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain. Serch hynny, darparodd yr Eglwys yng Nghymru restrau cyfeiriadau yn ddiweddarach er mwyn i CGGC wneud ail ymgyrch bostio.

Dechreuwyd anfon yr holiaduron trwy'r post ym mis Mehefin 2007 ac fe'u derbyniwyd yn ôl ar ddiwedd mis Hydref 2007.

Cafodd yr un patrwm o gysylltu ag arweinwyr ei ddefnyddio ar gyfer y crefyddau eraill. Cafodd yr holiadur ei gyflwyno iddyn nhw'n unigol, a rhoi cyngor ar sut i'w lenwi. Ar ôl cysylltiad cychwynnol gan Gweini, postiodd CGGC at y cymunedau Iddewig a Hindŵaidd. Serch hynny, roedd yn well gan y cymunedau Bahá'í, Bwdhaidd, Sikhaidd a Mwslimaidd drefnu'r dosbarthiad eu hunain.

## Cyfraddau ymateb

Mae'r cyfraddau ymateb crynswth yn cael eu dangos isod (Tabl A3.1) ar gyfer y grwpiau sy'n cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn at ddibenion cyflwyno'r wybodaeth. Dylid nodi'r pwyntiau canlynol.

- Yr Eglwys yng Nghymru: mae'r ffigyrau'n cyfeirio at blwyfi, nid cynulleidfaoedd (1,453 mewn nifer).
- Methodistiaid: mae'r ffigyrau'n cyfeirio at ddim ond 50% o gapeli Synod Cymru, oherwydd anawsterau wrth anfon yr holiadur atyn nhw. Er hynny, mae'r niferoedd cyfan yn cael eu cynnwys yn yr amcangyfrifon wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad hwn.
- Bwdhyddion: penderfynodd Cyngor Bwdhyddion Cymru mai dim ond un o'u canolfannau oedd yn diwallu'r meini prawf i'r astudiaeth hon - mae sawl canolfan Fwdhaidd arall ar draws Cymru.

### Tabl A2. Cyfraddau ymateb crynswth

| | Ffurflenni a anfonwyd | Ffurflenni a dderbyniwyd | Cyfradd ymateb |
|---|---|---|---|
| **Crefyddau nad ydynt yn rhai Cristnogol** | | | |
| Bahá'í | 5 | 5 | 100% |
| Bwdhaidd | 1 | 1 | |
| Hindwaidd | 4 | 4 | 100% |
| Islamaidd (Mwslimaidd) | 34 | 10 | 29% |
| Iddewig | 3 | 3 | 100% |
| Sikhaidd | 1 | 1 | 100% |
| | | | |
| **Enwadau Cristnogol** | | | |
| Annibynwyr | 514 | 283 | 55% |
| Bedyddwyr | 557 | 287 | 52% |
| Yr Eglwys yng Nghymru | 905 | 345 | 38% |
| Methodistiaid | 285 | 158 | 55% |
| Yr Eglwys Gatholig | 161 | 62 | 39% |
| Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig | 117 | 70 | 60% |
| Presbyteriaid Cymru | 733 | 433 | 59% |
| Enwadau Diweddarach | 230 | 108 | 47% |
| Cristnogol Arall | 281 | 112 | 40% |
| | | | |
| **Pob crefydd** | 3,831 | 1,881 | 49% |

# Atodiad 4. Gwirio data ac amcangyfrif gwerthoedd coll

## Gwirio data

Roedd y data a gafodd eu darparu wedi mynd trwy nifer o wiriadau am gysondeb; cafodd ymatebion eu dehongli a'u trosglwyddo i'r fformat angenrheidiol, lle roedd angen, a chafodd ymatebion eithafol ac annhebygol eu golygu.

## Amcangyfrif gwerthoedd coll

Cafodd yr holiadur ei lunio i fod mor hawdd ei ateb â phosibl. Roedd y rhan fwyaf o gwestiynau'n flychau ticio. Serch hynny, roedd gofyn am rai amcangyfrifon rhifol a oedd yn fwy anodd eu darparu, fel a ganlyn:
C13 Os ydych chi'n croesawu ymwelwyr, yn fras, faint fydd yn ymweld â'ch adeilad bob blwyddyn?
C18 Faint o wirfoddolwyr o'ch cynulleidfa sy'n ymwneud â'ch gweithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach?
C19 Faint o'r gwirfoddolwyr yma sy'n ymwneud â gweithgareddau ar gyfer plant neu bobl ifanc?
C20 Ar wythnos gyffredin, am faint o oriau y person bydd eich gwirfoddolwyr yn rhoi i mewn i weithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach?
C23 Ar wythnos gyffredin, beth yw'r cyfanswm o oriau y person bydd eich staff yn rhoi i fewn er mwyn gwasanaethu'r gymuned ehangach?
C25 Ar wythnos gyffredin, beth yw'r cyfanswm o oriau yr ystafell darparwyd ar gyfer gweithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach?
Er mwyn darparu amcangyfrifon mwy cyflawn, cafodd gwerthoedd eu priodoli mewn nifer o achosion, fel a ganlyn. Ni chafodd gwerthoedd eu newid mewn unrhyw achos. Felly, hyd yn oed pan adroddodd cymunedau ffydd nifer mawr o weithgareddau, neu nifer mawr o ystafelloedd, ond sero ar gyfer nifer oriau gwirfoddolwyr, neu oriau ystafelloedd a ddarparwyd, cafodd y gwerth hwn ei gadw.

### C13 Os ydych chi'n croesawu ymwelwyr, yn fras, faint fydd yn ymweld â'ch adeilad bob blwyddyn?

Roedd y cwestiwn hwn heb ei ateb mewn 53% o achosion, gan gynnwys 46%, 26% a 23% o adeiladau wedi'u nodi fel Graddau II, II* ac I, yn eu tro. Ar gyfer adeiladau rhestredig, cafodd y gwerthoedd coll hyn eu newid gan nifer cymedrig y twristiaid a gafodd eu nodi ar gyfer gradd briodol yr adeilad: 402, 1072 a 2582, yn eu tro (ar ôl hepgor ffigyrau Eglwys Gadeiriol Tyddewi, sef eithriad ystadegol amlwg).

Ni chafodd unrhyw briodoli ei wneud am werthoedd coll ar gyfer adeiladau heb eu rhestru, neu ar gyfer adeiladau nad oedd eu gradd yn hysbys.

### C18 Faint o wirfoddolwyr o'ch cynulleidfa sy'n ymwneud â'ch gweithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach?

Mewn 33% o achosion, roedd y maes hwn wedi cael ei adael yn wag, er bod nifer o weithgareddau mewn 89% o'r achosion hyn wedi cael eu ticio fel rhai y mae'r gymuned ffydd dan sylw yn eu gwneud. Yn amlwg, gall fod rhai cymunedau ffydd yn trefnu

gweithgareddau trwy ddefnyddio staff cyflogedig ac felly, lle mai sero oedd yr ateb i G18, roedd hyn heb ei newid. Mewn achosion eraill, cafodd y gwerthoedd eu priodoli o ymatebion cyflawn.

Cafodd nifer o ddulliau priodoli eu harchwilio, gan gynnwys technegau cyfartalu syml a nifer o fodelau atchwel yn seiliedig ar yr ymatebion i gwestiynau'r gweithgareddau, gradd yr adeilad a maint y gynulleidfa. Roedd y canlyniadau'n debyg yn gyffredinol. Cafwyd perthynas llinol rhwng nifer y gwirfoddolwyr ar gyfartaledd wedi'i nodi a nifer y gweithgareddau wedi'u ticio. Ar y sail honno, lle nad oes amcangyfrif ar gyfer nifer y gwirfoddolwyr, cafodd nifer y gweithgareddau a diciwyd eu cyfrif, a nifer y gwirfoddolwyr ar gyfartaledd a gafodd ei nodi ar gyfer y nifer hwnnw o weithgareddau oedd y ffigwr a gafodd ei ddefnyddio, wedi'i grwpio yn y fath ffordd nad oedd dim cyfartaledd wedi cael ei gymryd ar draws llai na 30 o arsylwadau. Roedd yr amcangyfrif canlyniadol yn fras yng nghanol yr amrediad a gafodd ei gynhyrchu gan y technegau gwahanol. Mae manylion pellach ar gael oddi wrth y person cyswllt ar gyfer yr adroddiad hwn.

## C19 Faint o'r gwirfoddolwyr yma sy'n ymwneud â gweithgareddau ar gyfer plant neu bobl ifanc?

Y mater yma oedd amcangyfrif cyfran y gwirfoddolwyr yn ymwneud â gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc, gan nad atebodd cyfran sylweddol o atebwyr C18 i G19. Cafodd hyn ei wneud trwy gyfrifo cymhareb yr ateb i'r cwestiwn hwn i'r ateb i G18 ar gyfanswm nifer y gwirfoddolwyr lle roedd yn bosibl. Cafodd y cymarebau canlyniadol eu cyfartalu (gan ddefnyddio cyfartaledd wedi'i phwysoli) i gynhyrchu gwerthoedd ar gyfartaledd i bob un o'r crefyddau/enwadau sy'n cael eu dangos yn y testun.

[Nodyn: ni chafodd y priodoliad hwn ei wneud ar gyfer C22, gan gyfeirio at y staff cyflogedig sy'n gweithio gyda phobl ifanc, gan iddo gael ei gymryd yn ganiataol y byddai atebwyr yn ymwybodol o ddyletswyddau staff cyflogedig. Cafodd atebion coll i G22 eu trin fel rhai sero.]

## C20 Ar wythnos gyffredin, am faint o oriau y person bydd eich gwirfoddolwyr yn rhoi i mewn i weithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach?

Yn yr un ffordd â nifer y gwirfoddolwyr, ceir perthynas llinol cryf rhwng yr ymatebion ar gyfartaledd i'r cwestiwn hwn a nifer y gweithgareddau a gafodd eu nodi. Cafodd yr un dull priodoli ei ddefnyddio. Lle cafodd nifer y gwirfoddolwyr ei nodi yn sero, cafodd y nifer priodoledig o oriau ei osod yn sero hefyd, ni waeth am nifer y gweithgareddau a gafodd ei nodi.

## C23 Ar wythnos gyffredin, beth yw'r cyfanswm o oriau y person bydd eich staff yn rhoi i fewn er mwyn gwasanaethu'r gymuned ehangach?

Pan adroddodd atebwyr eu bod nhw'n cyflogi staff, ond heb lenwi nifer oriau y person roedden nhw'n eu gweithio, cafodd ffigwr ei amcangyfrif o'r nifer ar gyfartaledd o'r rheiny a adroddodd yr un nifer o staff. Yn achos unigol 10 o staff, cafodd ffigwr 300 o oriau ei gymryd. Cafodd achos 100 o staff ei drin yn eithriad ac ni wnaeth unrhyw amcangyfrif.

## C25 Ar wythnos gyffredin, beth yw'r cyfanswm o oriau yr ystafell darparwyd ar gyfer gweithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach?

Roedd y dull yr un a gafodd ei ddefnyddio ar gyfer C19, gan osod y gwerth i sero os oedd yr ymateb i G24 (Faint o ystafelloedd sy'n cael eu darparu gan eich cynulleidfa fel rhan o'r gweithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach?) yn sero.

# Atodiad 5. Grosio i fyny

Cafodd grosio i fyny ei ddefnyddio i amcangyfrif cyfansymiau ar gyfer yr holl gymunedau ffydd hysbys yng Nghymru ar sail yr ymatebion a gafodd eu derbyn.

Ar gyfer y cynulleidfaoedd Cristnogol, roedd hi'n bosibl pwysoli canlyniadau'r arolwg yn ôl enwad, maint y gynulleidfa a rhanbarth, gan fod y tri newidyn ar gael, i bob cynulleidfa neu blwyf, oddi wrth ffynonellau'n annibynnol rhag yr arolwg. Fel y cafodd ei esbonio uchod, ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru, roedd gwybodaeth dim ond ar gael ar lefel y plwyf, nid y gynulleidfa.

Y lefel gyntaf o bwysoli a gafodd ei ddefnyddio oedd yn ôl enwad neu grwpiau o enwadau, gan ddefnyddio 25 grŵp, wedi'u lleihau o'r 34 sydd yn Atodiad 1 trwy gyfuno'r enwadau gyda'r niferoedd lleiaf ynghyd.

Y rhesymeg dros hyn oedd disgwyliad bod y patrwm o ddarparu gwasanaethau yn debygol o amrywio'n sylweddol yn ôl enwad, ac yn wir dyma oedd yr achos. I ddechrau, mae darpariaeth gwasanaethau yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg yn amrywio'n sylweddol yn ôl enwad. Ar ben hynny, mae nifer y gweithgareddau a gafodd eu nodi gan gynulleidfaoedd o'r enwadau gwahanol yn amrywio'n sylweddol, 5.8 yw ei gymedr a'r gwyriad safonol, 3.3.

Y lefel nesaf o bwysoli a gafodd ei ddefnyddio oedd yn ôl maint y gynulleidfa. Cafwyd cyfradd ymateb ychydig yn is ar gyfer y traean isaf o gynulleidfaoedd, o fewn pob un o'r enwadau mwy eu maint. Eto dylid disgwyl hyn, gan fod y cynulleidfaoedd lleiaf yn debygol o feddu ar lai o adnoddau i roi tuag at lenwi holiaduron.

Cafodd hyn ei drin trwy hybu'r pwysoliadau ar gyfer y cynulleidfaoedd llai, a gwanhau'r pwysoliadau ar gyfer y cynulleidfaoedd mwy eu maint, fel a ganlyn:

| Maint y gynulleidfa (fel yr adroddwyd i'r enwad) | Ffactor addasu |
|---|---|
| Hyd at 10 | 1.33597 |
| 11 hyd 19 | 1.11143 |
| 20 a throsodd | 0.90226 |

Yn olaf, ar gyfer amcangyfrif y brif ardal yn unig cafodd pwysoli ei ddefnyddio yn ôl sir er mwyn sicrhau bod amcangyfrif lefelau'r boblogaeth yn gyfartal â gwir lefelau pob sir. Roedd y ffactorau a gafodd eu defnyddio'n amrywio o 0.82 hyd 1.27.

# Atodiad 6. Dadansoddiad economaidd

## Rhagymadrodd

Mae'r dulliau a gafodd eu defnyddio yn ehangu ar y rheiny a gafodd eu defnyddio mewn astudiaethau eraill, gan bennaf astudiaethau Awdurdod Datblygu'r Gogledd Orllewin (NWDA), lle cafodd dadansoddiad yr effaith economaidd ei wneud gan DTZ (gweler *Faith in England's Northwest: Economic Impact Assessment*, Awdurdod Datblygu Rhanbarth y Gogledd Orllewin, 2005).

Mae'r cyfraniad yn cael ei gyfrifo fel cyfanswm pum cydran:

- Yr ystafelloedd ac adeiladau sydd ar gael i'r cyhoedd
- Twristiaeth wedi'i chynhyrchu gan gymunedau ffydd
- Gwerth mynediad am ddim i adeiladau cymunedau ffydd
- Gwaith gwirfoddol wedi'i drefnu gan gymunedau ffydd
- Staff cyflogedig yn trefnu gwasanaethau i'r gymuned ehangach

## Yr ystafelloedd ac adeiladau sydd ar gael i'r cyhoedd

Y cwestiynau perthnasol am amcangyfrif gwerth y llety hwn yw:

- C11 Os ydych chi yn rhentu allan ystafelloedd, faint o dâl ydych chi'n codi am eich ystafell fwyaf ar gyfartaledd?
- C12 Os ydych chi'n darparu ystafelloedd am ddim i fudiadau annibynnol, am faint o oriau defnyddir hwy ar gyfartaledd bob wythnos?
- C25 Ar wythnos gyffredin, beth yw'r cyfanswm o oriau yr ystafell darparwyd ar gyfer gweithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach?

Mae gwerth blynyddol rhentu ystafelloedd allan am ddim i fudiadau annibynnol yn cael ei amcangyfrif fel cyfanswm:

- **R12 (sy'n golygu'r ateb a gafodd ei roi i G12, ac ati) X Cyfartaledd R11 X 48**

Mae C11 yn cyfeirio at rent yr ystafell fwyaf, nid yr ystafell gyffredinol (lle mae amrywiadau, byddai wedi bod yn amhosibl gofyn am y manylion llawn). Bydd hyn yn cynhyrchu rhywfaint o oramcangyfrif yn y canlyniadau lle mae mwy nag un ystafell ac maen nhw o feintiau gwahanol. Serch hynny, yn gwrthbwyso hyn, mae'n cael ei gredu'n debygol iawn y bydd sawl cymuned ffydd yn codi o dan renti'r farchnad, sy'n arwain at danamcangyfrif o werth y farchnad sy'n cael ei gynnig. Mae blwyddyn yn cael ei thybio i fod yn 48 wythnos, gan hepgor gwyliau. Mae hyn yn debygol o fod yn amcangyfrif ceidwadol gan fod sawl cymuned ffydd yn arbennig o weithgar yn ystod y prif wyliau, ac mae'n bosibl iddyn nhw drefnu gweithgareddau dros yr haf.

Mae gwerth blynyddol yr ystafelloedd sy'n cael eu darparu fel rhan o weithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach yn cael ei amcangyfrif fel cyfanswm:

- **R25 X Cyfartaledd R11 X 48**

Mae'r cafeatau a gafodd eu nodi uchod yn berthnasol.

## Twristiaeth wedi'i chynhyrchu gan gymunedau ffydd

Y cwestiwn perthnasol yw:

- C13 Os ydych chi'n croesawu ymwelwyr, yn fras, faint fydd yn ymweld â'ch adeilad bob blwyddyn?

**Mae gwerth blynyddol y fath dwristiaid i'r economi lleol yn cael ei amcangyfrif fel cyfanswm:**

- **R13 X cyfran y twristiaid sy'n dod i'r ardal er mwyn ymweld ag adeilad y gymuned ffydd X gwariant y twristiaid ar gyfartaledd o fewn yr ardal**

Gall hyn fod ond yn gyfrifiad bras, yn ddibynnol iawn ar ragdybiaethau. Yn achos prosiect Awdurdod Datblygu'r Gogledd Orllewin, tybiodd DTZ fod y tebygolrwydd o ymwelydd â chymuned ffydd yn dod i'r ardal ar sail adeilad y gymuned ffydd yn 40% ar gyfer pob ardal ar wahân i Lerpwl a Chaer, lle roedd yr adeiladau ffydd hynod o ddeniadol yn cyfiawnhau ffigwr o 50%. Drwy gydol yr astudiaeth hon, mae'r ffigwr o 40% wedi cael ei ddefnyddio.

Yn ôl Croeso Cymru, ychydig dros £11 oedd gwariant ymwelydd dydd â Chymru ar gyfartaledd, yn deillio o Arolwg Gwariant 2005. Yn trosglwyddo'r ffigwr hwn i lefel 2007, gan ddefnyddio'r mynegai enillion ar gyfartaledd ar gyfer y DU, mae'n rhoi ffigwr £11.73 yr ymwelydd, a dyma'r ffigwr a gafodd ei ddefnyddio yn yr astudiaeth hon. O gymharu, £12.10 oedd y ffigwr a gafodd ei ddefnyddio yn astudiaeth DTZ.

## Gwerth mynediad i adeiladau cymunedau ffydd

Ni chredir bod adeiladau ffydd yng Nghymru yn codi ffi fynediad (er bod llawer yn gofyn am rodd). Serch hynny, mae'n bosibl gwneud cyfrifiad damcaniaethol syml o gyfanswm ffioedd mynediad y byddai twristiaid yn eu talu i gymunedau ffydd pe baen nhw'n parhau i ymweld yn eu niferoedd presennol, ond yn talu £1, £2 a £3 am fynediad i adeiladau Gradd II, II* ac I, yn eu tro. Mae'r rhain yn cael eu hystyried i fod yn ffigyrau ceidwadol.

**Mae cyfanswm y twristiaid i bob gradd o adeilad yn cael ei roi i G13, fel y nodwyd uchod. Y ffi fynediad sylfaenol felly, i'r graddau gwahanol o adeilad, yw cyfanswm:**

- **R13 X ffi fynediad sylfaenol**

Y bwriad yma yw gwneud rhyw gydnabyddiaeth o'r budd economaidd y mae adeiladau ffydd yn dwyn i'w cymunedau lleol trwy brynu nwyddau a gwasanaethau a chyflogi staff i redeg eu hadeiladau. Mae'n debygol o fod yn amcangyfrif ceidwadol iawn. Mae astudiaeth a gafodd ei gwneud ar gyfer eglwysi cadeiriol Lloegr wedi awgrymu bod effaith eu gweithgarwch economaidd eu hunain ar yr ardaloedd lleol yn llawer fwy na'u cyfraniad trwy dwristiaeth (*The Economic and Social Impacts of Cathedrals in England*, ECOTEC, 2004).

## Gwaith gwirfoddol wedi'i drefnu gan gymunedau ffydd

Y cwestiwn perthnasol yw:

- C20 Ar wythnos gyffredin, am faint o oriau y person bydd eich gwirfoddolwyr yn rhoi i mewn i weithgareddau sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach?

**Mae gwerth blynyddol y gweithgarwch gwirfoddol hwn yn cael ei amcangyfrif, trwy ddefnyddio'r dull safonol y mae CGGC yn ei ddefnyddio fel cyfanswm:**

- **R20 X cyfradd gyflog yr awr ar gyfartaledd X 48**

£11.57 yw cyfradd gyflog yr awr ar gyfartaledd i Gymru ar gyfer 2007, wedi'i chyflenwi gan CGGC oddi wrth ffynonellau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae ffigyrau oddi wrth Banel Cartrefi Prydain, wedi'u cyflenwi gan yr Athro Andrew Henley, yn nodi bod pobl sy'n grefyddol weithgar yn ennill llawer mwy na'r cyfartaledd ar gyfer pawb sy'n economaidd weithgar (tua 13% yn fwy, yn ôl data 1995 ar gyfer y Deyrnas Unedig i gyd). Ar y sail hon, gellid ei ddadlau bod defnyddio'r ffigwr uchod yn cynrychioli amcangyfrif ceidwadol o werth oriau gwirfoddolwyr wedi'u darparu gan gymunedau ffydd.

## Staff cyflogedig yn trefnu gwasanaethau i'r gymuned ehangach

Y cwestiwn perthnasol yw:

- C23 Ar wythnos gyffredin, beth yw'r cyfanswm o oriau y person bydd eich staff yn rhoi i mewn er mwyn gwasanaethu'r gymuned ehangach? (Llawn amser a rhan amser ar wahân)

Mae gwerth cychwynnol, blynyddol o werth y gwaith cyflogedig hwn yn cael ei amcangyfrif fel cyfanswm:

- R23 X Amcangyfrif cyfradd gyflog yr awr ar gyfartaledd X 52

Eto, £11.57 yw cyfradd gyflog yr awr a gafodd ei defnyddio.

Serch hynny, mae hyn yn hepgor unrhyw wario arall gan y mudiad o ganlyniad i'r gwaith cyflogedig hwn. Ar sail yr hyn y mae'r Athro Andrew Henley o'r Grŵp Ymgynghorol wedi awgrymu i fod y llenyddiaeth fwyaf perthnasol, hynny sy'n ymwneud ag effaith ranbarthol gwariant twristiaeth, mae ffactor o 1.5 wedi cael ei chyflwyno er mwyn caniatáu am hyn. Mae'r ffigwr yn deillio'n fawr o ganlyniadau a gafodd eu cyhoeddi yn *Regional Economics and Policy*, gan Harvey Armstrong a Jim Taylor, 3ydd Argraffiad, Blackwell, 2000, sy'n awgrymu ffigwr rhwng 1.54 a 1.72. Mae papur mwy diweddar, *Explanatory Meta-analysis for the Comparison and Transfer of Regional Tourist Income*, gan Sef R. Baaijens, Peter Nijkamp a Kees Van Montfort, *Regional Studies*, Cyf. 32.9, tud. 839-849, yn rhoi'r amrediad ehangach o 1.35 hyd 2.

**Yr amcangyfrif blynyddol terfynol o werth y gwaith cyflogedig hwn yw cyfanswm:**

- **R23 X Amcangyfrif cyfradd gyflog yr awr ar gyfartaledd X 52 X 1.5**

# Atodiad 7. Diogelu a chyrchu data

Trwy gydol y gwaith, cafodd natur anhysbys yr atebwyr ei chadw a chafodd y data eu cadw mewn dull diogel electronig gan CGGC a Gweini, yn rhinwedd eu rolau fel Rheolwyr Data Cofrestredig, o dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1998.

Ar gyfer tabliadau o'r arolwg, i'w cynhyrchu yn unol â chanllawiau cyfrinachedd safonol, cysylltwch â'r person cyswllt ar gyfer yr adroddiad hwn, yn y lle cyntaf.